

Arolygiad o Ysbyty (Dirybudd)

Ysbyty Treforys / Gwasanaethau

Pediatrig – Ward Oakwood a

Ward M,

Bwrdd Iechyd Prifysgol Bae

Abertawe

Dyddiad arolygu: 21 – 22 Ionawr

2020

Dyddiad cyhoeddi: 24 Mehefin

2020

Gellir darparu'r cyhoeddiad hwn a gwybodaeth arall gan AGIC mewn fformatau neu ieithoedd amgen ar gais. Bydd oedi byr wrth i ieithoedd a fformatau eraill gael eu cynhyrchu pan ofynnir amdanynt i ddiwallu anghenion unigol. Cysylltwch â ni am gymorth.

Bydd copïau o'r holl adroddiadau, pan gânt eu cyhoeddi, ar gael ar ein gwefan neu drwy gysylltu â ni:

Yn ysgrifenedig:

**Rheolwr Cyfathrebu
Arolygiaeth Gofal Iechyd Cymru
Llywodraeth Cymru
Parc Busnes Rhydycar
Merthyr Tudful
CF48 1UZ**

Neu

**Ffôn: 0300 062 8163
E-bost: hiw@gov.wales
Gwefan: www.agic.org.uk**

Cynnwys

1.	Yr hyn a wnaethom	6
2.	Crynodeb o'n harolygiad	7
3.	Yr hyn a nodwyd gennym.....	8
	Ansawdd profiad y claf	10
	Darparu gofal diogel ac effeithiol	19
	Ansawdd rheolaeth ac arweinyddiaeth.....	33
4.	Beth nesaf?	42
5.	Sut rydym yn arolygu ysbytai	43
	Atodiad A – Crynodeb o'r pryderon a gafodd eu datrys yn ystod yr arolygiad	44
	Atodiad B – Cynllun gwella uniongyrchol.....	45
	Atodiad C – Cynllun gwella.....	50

Arolygiaeth Gofal Iechyd Cymru (AGIC) yw arolygiaeth a rheoleiddiwr annibynnol gofal iechyd yng Nghymru

Ein diben

Gwneud yn siŵr bod pobl yng Nghymru yn derbyn gofal iechyd o ansawdd da

Ein gwerthoedd

Rydym yn rhoi cleifion wrth wraidd yr hyn a wnawn. Rydym yn:

- Annibynnol
- Gwrthrychol
- Gofalgar
- Cydweithredol
- Awdurdodol

Ein blaenoriaethau

Drwy ein gwaith, ein nod yw:

Rhoi sicrwydd:

Cynnig barn annibynnol ar ansawdd y gofal

Hybu gwelliant:

Annog gwelliant drwy lunio adroddiadau a rhannu arfer da

Dylanwadu ar bolisi a safonau:

Defnyddio'r hyn rydym yn ei ganfod i ddylanwadu ar bolisi, safonau ac arfer

1. Yr hyn a wnaethom

Cwblhaodd Arolygiaeth Gofal Iechyd Cymru (AGIC) arolygiad dirybudd o Ysbyty Treforys sy'n rhan o Fwrdd Iechyd Prifysgol Bae Abertawe ar 21 a 22 Ionawr 2020. Ymwelwyd â'r safleoedd a'r wardiau canlynol yn yr ysbyty yn ystod yr arolygiad hwn:

- Ward Oakwood (ward feddygol)
- Ward M (ward lawfeddygol i blant)

Roedd ein tîm ar gyfer yr arolygiad yn cynnwys dau o Arolygwyr AGIC, dau adolygwr sy'n gymheiriaid clinigol a dau adolygwr lleyg. Arweiniwyd yr arolygiad gan un o reolwyr arolygu AGIC.

Ystyriodd AGIC i ba raddau y mae'r gwasanaeth yn cyrraedd y Safonau Iechyd a Gofal (2015).

Ceir rhagor o fanylion am y ffordd rydym yn cynnal arolygiadau o ysbytai yn Adran 5 ac ar ein gwefan.

2. Crynodeb o'n harolygiad

Yn gyffredinol, gwelsom dystiolaeth bod y gwasanaeth yn darparu gofal diogel ac effeithiol.

Fodd bynnag, gwelsom beth tystiolaeth nad oedd y bwrdd iechyd yn cydymffurfio'n llawn â'r holl Safonau Iechyd a Gofal ym mhob maes. Roedd hyn yn cynnwys sicrhau bod gweithgareddau o ddydd i ddydd ar y wardiau yn cael eu goruchwylio'n ddigonol.

Nodwyd gennym fod y gwasanaeth yn gwneud y canlynol yn dda:

- Roedd y cleifion a'u teuluoedd yn gadarnhaol am y gofal a'r driniaeth a roddwyd yn ystod eu harhosiad ar y wardiau
- Gwelsom ryngweithio proffesiynol a charedig rhwng y staff a'r cleifion, a gofal yn cael ei ddarparu mewn ffordd urddasol
- Roedd y trefniadau ymweld yn golygu bod y cleifion yn gallu cadw mewn cysylltiad â'u teuluoedd a'u ffrindiau, yn ôl eu dymuniad
- Roedd trefniadau ar waith i sicrhau diogelwch y cleifion yn yr ardaloedd y gwnaethom ymweld â nhw
- Yn gyffredinol, gwelsom fod cofnodion y cleifion o safon dda, yn hawdd eu darllen ac yn llawn gwybodaeth
- Roedd y staff ar y ddwy ward yn gydlynol ac roedd ganddynt gydberthynas dda â rheolwyr y wardiau.

Argymhellwn y gallai'r gwasanaeth wella'r canlynol:

- Dylid diweddarau amgylchedd ac ôl-troed y wardiau er mwyn sicrhau bod modd cynnal urddas y cleifion bob amser
- Dylai pob claf gael ei ryddhau mewn modd amserol
- Storio gwybodaeth yn ddiogel er mwyn atal mynediad heb awdurdod ac er mwyn cynnal cyfrinachedd y cleifion
- Bod y rotâu staffio'n cael eu hadolygu er mwyn sicrhau bod y lefelau staffio'n ddiogel ac yn effeithiol i ddiwallu anghenion y gwasanaeth
- Gweithgarwch archwilio yn cael ei gyflawni ar y ward.

3. Yr hyn a nodwyd gennym

Cefndir y gwasanaeth

Mae Ysbyty Treforys yn rhan o Fwrdd Iechyd Prifysgol Bae Abertawe. Mae'r bwrdd iechyd yn gwasanaethu poblogaeth o oddeutu 390,000 yn ardaloedd Castell-nedd Port Talbot ac Abertawe yn Ne-orllewin Cymru.

Lleolir Ysbyty Treforys ar gyrion Abertawe. Mae'n darparu amrywiaeth o lawdriniaethau aciwt a meddyginiaethau i gleifion o bob oedran gan gynnwys cleifion mewnol, cleifion allanol a gwasanaethau dydd.

Mae Ward Oakwood, sy'n cynnwys 16 o welyau, yn gofalu am blant o oedran geni hyd at 16 oed. Weithiau, bydd plant dros 16 oed yn cael eu gweld os ydynt yn dal i fod dan ofal meddyg ymgynghorol pediatrig neu'n hysbys i'r Gwasanaeth Iechyd Meddwl Plant a'r Glasoed (CAMHS). Mae Ward Oakwood yn darparu gofal i blant sydd ag amrywiaeth o anghenion gofal iechyd, o dderbyniadau meddygol aciwt i blant sydd ag anghenion cronig cymhleth. Gall plant gael eu derbyn hefyd fel achosion dydd a gynlluniwyd i gael sganiau neu drwythiadau mewnwythiennol¹. Mae Ward Oakwood yn cynnwys ardal dibyniaeth uchel â phedwar gwely sy'n gofalu am blant y mae angen eu monitro ac arsylwi arnynt yn agosach.

Mae Ward M, sy'n cynnwys 24 o welyau, yn gofalu am blant o oedran geni hyd at 16 oed sydd angen llawdriniaeth ddewisol. Mae'r ward hefyd yn darparu ar gyfer derbyniadau llawfeddygol brys a rhai derbyniadau meddygol. Ymhlith yr arbenigeddau a gwmpesir ar y ward hon mae clust, trwyn a gwddf (ENT), wroleg a llawdriniaeth enol-wynebol. Mae'r ward yn cynnwys cilfan arsylwi â phedwar gwely i fonitro plant sydd wedi cael llawdriniaeth, gan gynnwys llawdriniaeth gwefus a thafnod hollt, y mae angen eu harsylwi yn fwy aml.

Ceir hefyd uned asesu bediatrig sy'n derbyn plant a atgyfeirir fel achosion brys gan feddyg teulu, bydwaig neu'r adran achosion brys. Ar ôl iddynt gael eu

¹ Trwythiad mewnwythiennol yw pan roddir meddyginiaeth i mewn i'ch llif gwaed mewn ffordd reoledig.

hasesu, gall y plant neu'r bobl ifanc gael eu derbyn wedyn i'r ysbyty neu eu hanfon adref. Nid oedd yr uned hon yn rhan o'n harolygiad.

Ansawdd profiad y claf

Cawsom sgwrs â'r cleifion, eu perthnasau, eu cynrychiolwyr a/neu eu heiriolwyr (lle roedd hynny'n briodol) er mwyn sicrhau bod safbwynt y claf yn ganolog i'n dull o arolygu.

Dywedodd y rhan fwyaf o'r cleifion a'u rhieni/gofalwyr wrthym eu bod yn hapus â'r gofal a'r cymorth a roddwyd iddynt. Gwelsom enghreifftiau o ryngweithio cwrtais, cyfeillgar a chefnogol rhwng y staff a'r cleifion.

Roedd y trefniadau ymweld yn golygu bod y cleifion yn gallu cadw mewn cysylltiad â'u teuluoedd a'u ffrindiau, yn ôl eu dymuniad.

Fodd bynnag, gwelsom fod y staff yn ei chael hi'n anodd cynnal urddas y cleifion bob amser, oherwydd amgylchedd ac ôl-troed y wardiau.

Nodwyd gennym hefyd nad yw'r cleifion yn cael eu rhyddhau mewn modd amserol bob amser.

Yn ystod yr arolygiad, gwnaethom siarad â nifer o'r cleifion a'u rhieni/gofalwyr. Roedd y rhan fwyaf o'r cleifion y gwnaethom siarad â nhw o dan bum mlwydd oed. Nodir sylwadau a wnaed gan eu rhieni/gofalwyr drwy gydol yr adroddiad hwn.

Cadw'n iach

Gwelsom fod gwybodaeth i gleifion yn cael ei harddangos ar hysbysfyrdau ac mewn taflenni yn y coridorau ar y wardiau. Roedd y wybodaeth honno'n cynnwys meysydd hybu iechyd fel diabetes, bwydo ar y fron ac e-sigaréts. Fodd bynnag, ychydig iawn o wybodaeth a oedd ar gael am bynciau fel iechyd meddwl ac ymwybyddiaeth o'r cyfryngau cymdeithasol. Roedd y rhan fwyaf o'r wybodaeth yn ymddangos fel pe bai wedi dyddio ac wedi'i hysgrifennu mewn iaith a oedd yn fwy priodol i rieni a phobl ifanc yn eu harddegau hŷn, ac nid oedd yn ystyried oedrannau amrywiol y plant ar y wardiau.

Gwelsom y staff yn helpu'r cleifion a'r rhieni/gofalwyr i reoli eu hiechyd a'u llesiant. Dywedodd un rhiant wrthym fod y staff wedi sôn wrtho ef a'i blentyn am

bwysigrwydd aros yn iach drwy sicrhau eu bod wedi'u hydradu ac yn bwyta'n iach.

Yr hyn sydd angen ei wella

Mae'n rhaid i'r bwrdd iechyd sicrhau bod gwybodaeth hybu iechyd gyfredol ar gael i gleifion o bob oedran.

Gofal ag urddas

Yn ystod ein harolygiad, gwelsom y staff yn siarad â'r cleifion a'u rhieni/gofalwyr â charedigrwydd a pharch. Gwelsom y staff yn cyflwyno eu hunain i'r plant a'r bobl ifanc ac yn eu cyfarch gan ddefnyddio eu henw dewisol. Roedd y staff yn siarad â'r plant mewn ffordd gynnes a chyfeillgar a oedd yn briodol i'w hoedran. Dywedodd y cleifion y gwnaethom siarad â nhw fod y staff yn ofalgar ac yn gyfeillgar, eu bod wedi'u trin ag urddas a'u bod wedi cymryd amser i'w helpu drwy gydol eu harhosiad.

Yn ystod ein harolygiad, gwnaethom wahodd y staff i gwblhau holiadur AGIC. Derbyniwyd 27 o holiaduron wedi'u cwblhau gan y staff. Dywedodd y rhan fwyaf o'r staff a gwblhaodd holiadur fod preifatrwydd ac urddas y cleifion yn cael eu cynnal bob amser neu fel arfer.

Gwelsom y staff yn diogelu preifatrwydd ac urddas y cleifion i'r graddau a oedd yn bosibl. Roedd y llenni yn cael eu cau o amgylch gwelyau'r cleifion yn y cilfannau â mwy nag un gwely tra bod y staff yn rhoi gofal personol iddynt ac yn ystod sgysiau personol. Fodd bynnag, ar un achlysur, clywodd aelodau o'r tîm arolygu sgws sensitif rhwng y staff a chlaf a'i berthynas/gofalwr yn ystod rownd feddygol. Cynhaliwyd y sgws mewn cilfan â mwy nag un gwely gyda'r llenni wedi'u cau o amgylch y gwely. Roedd hyn yn golygu bod posibilrwydd y gallai'r cleifion eraill neu eu rhieni/gofalwyr glywed sgysiau'n mynd rhagddynt os oedd y staff yn siarad â'r cleifion yn yr ystafell pan roedd eraill yn bresennol.

Gwelsom nad oedd unrhyw ystafell dawel ddynodedig nac ardal ar y naill ward na'r llall lle y gallai'r staff gael sgysiau sensitif â'r cleifion a'u rhieni/gofalwyr. Byddai ystafell dawel yn galluogi'r staff i roi cymorth i deuluoedd, ac yn caniatáu i deuluoedd dreulio amser gyda'i gilydd yn breifat, i ffwrdd oddi wrth y wardiau prysur, gan gynnal eu hurddas.

Roedd y trefniadau ymweld ar y ddwy ward yn golygu bod y cleifion yn gallu cadw mewn cysylltiad â'u teuluoedd a'u ffrindiau, yn ôl eu dymuniad. Dywedodd y staff wrthym hefyd fod un rhiant/gofalwr yn gallu aros dros nos gyda phob claf ar

welyau tynnu allan, neu ar gadeiriau wrth ymyl gwely'r claf. Gwelsom mai ychydig iawn o le oedd o amgylch y gwelyau yn y cilfannau â mwy nag un gwely. Roedd hyn yn golygu y gallai urddas y rhieni/gofalwyr a oedd yn aros dros nos yn yr ardaloedd hyn gael ei beryglu.

Gwelsom fod pobl ifanc yn eu harddegau wedi'u lleoli ar y wardiau ymysg plant iau. Er bod ardal ystafell chwarae ar gael ar gyfer y plant iau, nid oes unrhyw ardal nac ystafell ar y naill ward na'r llall sy'n addas i bobl ifanc yn eu harddegau dreulio amser i ffwrdd oddi wrth eu gwelyau. Gall hyn gael effaith negyddol ar eu hanghenion seicolegol a chymdeithasol yn ystod eu harhosiad yn yr ysbyty. Gwelsom hefyd fod claf yn ei arddegau wedi'i leoli mewn cilfan â mwy nag un gwely ar Ward Oakwood ymysg cleifion eraill a oedd tua phum mlwydd oed ac iau. Cadwodd y claf hwnnw'r llen o amgylch ei wely ar gau am y rhan fwyaf o'r amser yr oeddem yn cynnal ein harolygiad a gall hyn fod wedi achosi teimlad o unigrwydd. Er ein bod yn cydnabod bod yr amgylchedd yn cyflwyno heriau o ran lle, argymhellwn y dylid ystyried darparu ardal ddynodedig ar gyfer plant hŷn a phobl ifanc yn eu harddegau.

Disgrifiodd un rhiant y gwnaethom siarad ag ef sut yr oedd yn rhaid iddo gerdded drwy gilfan â mwy nag un gwely i gael gafael ar gyfleusterau i rieni. Dywedodd wrthym ei fod yn teimlo'n anghyfforddus yn torri ar lonyddwch y cleifion eraill a'u teuluoedd. Roedd y cynllun cyfredol yn golygu bod un o'r cilfannau â mwy nag un gwely, ac ardal agored o'r ward lle mae'r plant yn cael eu prydau, yn cael eu defnyddio gan y rhieni i gael gafael ar eu cyfleusterau. Roedd hyn yn golygu, er mwyn cynnal rhywfaint o breifatrwydd, fod yn rhaid i'r cleifion yn y cilfannau hynny gau eu llenni.

Dywedodd y staff wrthym fod cynlluniau ar waith i drawsnewid yr ardal agored o'r ward lle roedd y plant yn cael eu prydau. O ystyried y prinder lle ar y wardiau i roi preifatrwydd i'r cleifion, yn enwedig plant hŷn a phobl ifanc yn eu harddegau, a'u rhieni/gofalwyr, cynghorwn y dylid ystyried y ffordd orau o ddefnyddio'r ardaloedd agored hyn.

Yr hyn sydd angen ei wella

Mae'n rhaid i'r bwrdd iechyd wneud y canlynol:

- Ystyried sut y gellir cynnal preifatrwydd y cleifion os bydd y staff yn cael sgysiau yn y cilfannau â mwy nag un gwely
- Ystyried sut y gellir cynnal urddas y rhieni/gofalwyr sy'n aros dros nos yn y cilfannau â mwy nag un gwely

- Ystyried sut y gellir cynnal preifatrwydd ac urddas y cleifion a'u rhieni/gofalwyr os bydd angen i'r staff gael sgysiau sensitif â nhw
- Ystyried sut y gellir rhoi mwy o breifatrwydd ac urddas i blant hŷn a phobl ifanc yn eu harddegau
- Ystyried cynllun y wardiau a mynediad i gyfleusterau rhieni er mwyn cynnal preifatrwydd y cleifion.

Gwybodaeth i gleifion

Gwelodd y tîm arolygu fod cyfarwyddiadau i'r wardiau yn cael eu harddangos yn glir ym mhob rhan o'r ysbyty, gan olygu bod y cleifion yn gallu dod o hyd iddynt yn hawdd. Fodd bynnag, nid oedd unrhyw arwyddion amlwg ar y wardiau i gyfeirio'r cleifion a'u teuluoedd at y cyfleusterau sydd ar gael iddynt ar y wardiau. Dywedodd y staff wrthym fod y cleifion a'u teuluoedd yn cael gwybod ble mae'r cyfleusterau pan fyddant yn cyrraedd y wardiau. Roedd yr oriau ymweld yn cael eu harddangos yn glir ar y wardiau.

Gwelsom hysbysfyrddau a oedd yn dangos gwybodaeth am y staff ar y ddwy ward, gan gynnwys eu henwau a'u swyddi. Byddai hyn yn helpu'r cleifion a'u rhieni/gofalwyr i nodi'r staff a oedd yn gofalu amdanynt.

Yr hyn sydd angen ei wella

Mae'n rhaid i'r bwrdd iechyd sicrhau bod yr arwyddion ar y wardiau yn cael eu hadolygu er mwyn sicrhau ei bod yn hawdd i'r cleifion a'u gofalwyr/teuluoedd ddod o hyd i'r cyfleusterau.

Cyfathrebu'n effeithiol

Gwelsom y staff yn siarad â'r cleifion mewn ffordd sensitif a chwrtais, gan ystyried anghenion unigol y claf. Roedd yr holl gyfathrebu a welsom yn gyson â cham datblygu'r claf. Gwelsom y staff yn ymgysylltu'n gadarnhaol â'r teuluoedd hefyd. Gwelsom y teuluoedd yn mynd at y staff i ofyn am gymorth, a'r staff yn ymateb mewn ffordd gefnogol a brwdfrydig.

Fodd bynnag, nododd un rhiant y gwnaethom siarad ag ef fod diffyg cyfathrebu clir wedi bod gan y staff o ran diagnosis a thriniaeth ei blentyn. Gwnaethom hysbysu'r rheolwyr am hyn a chawsom sicrwydd ganddynt y byddent yn unioni'r sefyllfa ar gyfer y claf a'r rhiant.

Roedd y staff y gwnaethom siarad â nhw yn ymwybodol o'r gwasanaethau cyfieithu yn y bwrdd iechyd a sut y gellid cael gafael ar y rhain er mwyn cefnogi'r

cleifion hynny nad Saesneg oedd eu hiaith gyntaf o bosibl. Roedd staff a oedd yn siarad Cymraeg ar gael hefyd, y gellid eu hadnabod drwy eu laniardau a oedd yn dangos y gallent gael sgwrs yn Gymraeg. Gwelsom fod y staff yn rhagweithiol wrth ddarparu cymaint o ofal â phosibl a rhyngweithio â phosibl yn Gymraeg er mwyn diwallu anghenion cyfathrebu plant a phobl ifanc a oedd yn siarad Cymraeg fel mamiaith. Gwelsom hefyd bosteri a byrddau arddangos dwyieithog yng nghoridorau'r ddwy ward.

Dywedodd y staff nyrsio a'r rheolwyr wrthym fod y nyrsys chwarae yn aelodau hanfodol o dîm y ward a'u bod yn chwarae rôl bwysig a chadarnhaol o ran profiad y plant yn yr ysbyty. Gwelsom fod y nyrsys chwarae yn treulio amser gwerth chweil gyda'r cleifion, yn annog chwarae ac yn ymgysylltu â'r rhieni ac yn gwrando arnynt.

Gwnaethom siarad â'r nyrsys chwarae a ddywedodd wrthym am y rôl y maent yn ei chwarae yn nhaith y claf i'r theatr drwy ddefnyddio ffyrdd o dynnu eu sylw a'r defnydd o ddelweddau. Mae hyn yn sicrhau bod y cleifion yn profi llai o straen rhwng cael yr anesthetig a mynd i'r theatr. Hefyd, gwelsom un o'r nyrsys chwarae yn siarad yn amyneddgar â phlentyn ynghylch y llawdriniaeth yr oedd yn mynd i'w chael er mwyn rhoi tawelwch meddwl iddo. Gwyliodd y tîm arolygu ffilm fer hefyd a ddatblygwyd gan y staff i leddfu unrhyw bryderon y gall fod gan blentyn sy'n mynd i'r ysbyty i gael llawdriniaeth. Ystyriwyd gennym fod hwn yn adnodd cyfathrebu defnyddiol i baratoi plant ar gyfer llawdriniaeth ac i ddangos sut y gellir troi profiad llawn straen yn un hwyliog a diogel sy'n rhoi tawelwch meddwl.

Dywedodd y staff wrthym fod y tîm chwarae yn llunio cynllun chwarae datblygu ar gyfer cleifion weithiau, mewn iaith ac arddull sy'n briodol i'w hoedran, er mwyn eu helpu nhw a'u teuluoedd/gofalwyr i ddeall y gofal y maent yn ei gael a'r daith drwy'r adran. Soniodd y staff wrthym am enghraifft lle roedd cynllun gofal unigol yn cynnwys pob maes datblygiad gan gynnwys y meysydd synhwyraidd, corfforol ac emosiynol. Sicrhaodd hyn fod gan y claf ddarlun gweledol o'r gofal a oedd yn cael ei ddarparu.

Gwelsom raglen deledu i blant yn yr ystafell chwarae a oedd yn cael ei darlledu drwy ddefnyddio Makaton². Cynghorwn y byddai defnydd pellach o sgiliau

² Rhaglen iaith yw Makaton sydd wedi'i chynllunio i ddarparu ffordd o gyfathrebu ag unigolion na allant gyfathrebu'n effeithlon ar lafar

cyfathrebu dieiriau, gan gynnwys posteri ac adrodd straeon, yn fuddiol i blant a all ei chael hi'n anodd i gyfathrebu.

Roedd y rhan fwyaf o'r aelodau o staff a gwblhaodd holiaduron yn cytuno bod teuluoedd yn cymryd rhan yn y penderfyniadau a wneir ynghylch y gofal y mae eu plant yn ei gael bob amser neu fel arfer.

Roedd trosglwyddiadau meddygol a throsglwyddiadau nyrzio yn cael eu cynnal ar wahân, ac roeddem yn gallu bod yn bresennol ar gyfer y ddau. Gwnaethom arsylwi ar gyfathrebu effeithiol wrth drafod anghenion a chynlluniau gofal y cleifion, gyda'r bwriad o gynnal parhad gofal.

Gofal amserol

Gwnaethom siarad â chleifion a rhieni/gofalwyr a ddywedodd wrthym fod cymorth ar gael gan y staff, a hynny'n brydlon. Dywedwyd wrthym fod y staff yn rhoi sylw i anghenion y plant ac yn rhoi cymorth iddynt.

Yn y sampl o gofnodion cleifion a welwyd, gwelsom fod heriau wrth gael gafael ar feddygon ymgynghorol neu feddygon gradd ganol i awdurdodi'r broses o ryddhau claf. Mae gan lawer o'r cleifion anghenion amrywiol ac fe'u rheolir gan dimau amlddisgyblaethol. Mae'r nifer mawr o weithwyr gofal iechyd proffesiynol dan sylw yn golygu wedyn bod y broses o gynllunio ar gyfer rhyddhau cleifion yn fwy cymhleth. Mae hyn yn golygu na chaiff y cleifion eu rhyddhau'n amserol bob amser.

Yr hyn sydd angen ei wella

Mae'n rhaid i'r bwrdd iechyd ystyried y trefniadau ar gyfer cynllunio i ryddhau cleifion er mwyn sicrhau y cânt eu rhyddhau'n amserol.

Gofal unigol

Cynllunio gofal i hybu annibyniaeth

Dywedwyd wrthym fod y cleifion yn cael eu hasesu pan gânt eu derbyn i'r wardiau er mwyn nodi a mynd i'r afael â'u gofynion a sicrhau eu bod yn parhau'n annibynnol yn ystod eu cyfnod yn yr ysbyty. Gwnaethom siarad ag aelodau o'r staff a ddywedodd fod cleifion yn cael eu hannog i fod yn weithgar. Nodwyd hefyd fod cyfarpar yn cael ei roi iddynt pan fydd angen i'w helpu i gerdded, symud, bwyta, clywed a gweld.

Yn y sampl o gofnodion cleifion a welwyd, gwelsom fod asesiad ysgrifenedig o anghenion cleifion yn cael ei gwblhau er mwyn nodi eu gofynion gofal a chymorth unigol. Gwelsom fod cynlluniau gofal ysgrifenedig ar waith a oedd yn cael eu hadolygu'n rheolaidd.

Arsylwyd ar y staff yn helpu claf a'i riant/gofalwr i ddeall y ffordd yr oedd meddyginiaethau'r claf yn cael eu rhoi. Byddai hyn yn annog ac yn galluogi'r rhiant/gofalwr i ofalu am ei blentyn ar ôl iddo gael ei ryddhau drwy sicrhau bod ganddo'r wybodaeth i barhau i roi'r feddyginiaeth i'r plentyn gartref, gan hybu ei annibyniaeth.

Mae gan y gwasanaeth nyrs diabetes arweiniol arbenigol a ddywedodd wrthym y gall cleifion sy'n cael eu diagnosiso â diabetes gael eu derbyn i'r ward am gyfnod o rhwng pedwar a chwe diwrnod. Gwneir hyn er mwyn sicrhau bod y plentyn yn meddu ar y wybodaeth a'r sgiliau i allu rhoi'r feddyginiaeth ei hun. Dywedwyd wrthym fod cymorth yn cael ei roi i'r plant hefyd ar ôl iddynt gael eu rhyddhau, pan fyddant gartref ac yn yr ysgol. Byddai hyn yn galluogi'r plentyn i barhau i fod yn annibynnol yn ei fywyd o ddydd i ddydd.

Hawliau pobl

Gwelodd y tîm arolygu fod amgylchedd yr ystafell chwarae wedi'i deilwra tuag at blant iau ac nid oedd unrhyw ardal benodedig ar wahân ar gyfer plant hŷn a phobl ifanc yn eu harddegau. Fel y cyfeiriwyd ato yn gynharach yn adran Gofal ag Urddas yr adroddiad hwn, nid oes gan blant hŷn/pobl ifanc yn eu harddegau ystafell nac ardal lle y gallant dreulio amser yn ymlacio i ffwrdd oddi wrth yr ardaloedd prysur ar y ward. Ar y ddwy ward, gwelsom fod plant hŷn/pobl ifanc yn eu harddegau yn dueddol o gadw'r llenni o amgylch eu gwelyau ar gau, a allai fod o ganlyniad i ddiffyg preifatrwydd yn y cilfannau. Gwnaed argymhelliad yn hyn o beth yn gynharach yn yr adroddiad hwn.

Ystyriwyd hefyd na fyddai'r ystafell chwarae yn gallu darparu ar gyfer plentyn mewn cadair olwyn oherwydd y prinder lle yn yr ystafell honno.

Yn yr ystafell chwarae, gwelsom ystod eang o deganau, posau a llyfrau a fyddai'n helpu plant iau i ddatblygu. Fodd bynnag, roedd y gweithgareddau ar gyfer plant hŷn yn gyfyngedig ac yn cael eu darparu drwy gyfrwng technoleg. Cynghorwn y dylai'r bwrdd iechyd ddarparu gweithgareddau sy'n gweddu i ystod oedran y plant ar y wardiau.

Gwelsom fod amserlen weledol yn cael ei harddangos ar wal yr ystafell chwarae. Mae hwn yn adnodd defnyddiol sy'n galluogi'r plant i fod yn annibynnol ac sy'n helpu i'w cymell drwy nodi'n glir yr hyn y bydd yn digwydd yn ystod y dydd.

Gwelsom hefyd fod hysbysfwrdd ar y wal a oedd yn dangos taith y claf mewn fformat cwestiwn ac ateb.

Dyweddodd y staff wrthym, os bydd claf yn treulio cyfnod estynedig ar un o'r wardiau, y bydd nyrs chwarae yn sicrhau bod cynllun chwarae, datblygu a dysgu ar gael iddo. Mewn achosion lle'r oedd plant hŷn yn treulio cyfnod hwy ar y ward, dywedwyd wrthym fod cyfleoedd addysgol ffurfiol yn cael eu trefnu gan eu hysgol.

Dyweddodd y staff wrthym fod anghenion ysbrydol a diwylliannol unigol y claf yn cael eu hasesu pan gaiff ei dderbyn i'r wardiau. Dywedodd y staff wrthym eu bod mewn cysylltiad agos â nifer o arweinwyr aml-ffydd sy'n rhoi cyngor a chymorth i blant, pobl ifanc a'u teuluoedd. Dywedodd y staff eu bod yn annog y cleifion i ddathlu gwyliau calendr crefyddau eraill hefyd drwy'r gweithgareddau a ddarperir i'r cleifion.

Gwrando ar adborth a dysgu ohono

Dyweddodd y staff a'r rheolwyr wrthym y byddent yn ceisio ymdrin ag unrhyw gwynion yn llygad y ffynnon, gyda'r nod o'u datrys yn gyflym. Roedd taflenni dwyieithog am weithdrefn gwyno Gweithio i Wella y GIG yn cael eu harddangos ar y ddwy ward, er mwyn i gleifion eu dilyn pe bai ganddynt bryderon am eu gofal. Roedd gwybodaeth a oedd yn nodi manylion y Cyngor Iechyd Cymuned (CIC) ar gael hefyd. Gall y CIC ddarparu eiriolaeth a chymorth i gleifion wrth fynegi pryder am eu gofal. Roedd gwybodaeth am godi pryderon a chymorth eiriolaeth hefyd ar gael ar wefan y bwrdd iechyd.

Gwelsom fod y cleifion yn cael eu hannog i roi adborth mewn sawl ffordd wahanol, gan gynnwys poster menter adborth y bwrdd iechyd ac arolwg yr oedd modd ei gyrchu drwy god QR neu ei gwblhau drwy ffurflen adborth bapur. Roedd bwrdd a oedd yn galluogi'r cleifion iau i ysgrifennu eu hadborth yn cael ei arddangos hefyd. Roedd adborth gan y cleifion a'u rhieni/gofalwyr yn cael ei arddangos ar fyrddau ar y wardiau, ynghyd ag awgrymiadau ar gyfer newid. Roedd yr adborth yn cynnwys llawer o sylwadau cadarnhaol gan y cleifion a'u teuluoedd, yn diolch i'r staff ar y ddwy ward. Gwelsom fod rhywfaint o'r adborth yn cyfeirio at y ffaith bod angen cadeiriau newydd ar y wardiau am fod gorchuddion y rhai oedd yno wedi torri. Cyfeirir at hyn yn adran Atal a Rheoli Heintiau yr adroddiad hwn ac rydym wedi gwneud argymhelliad. Roedd hi'n siomedig gweld nad oedd unrhyw gamau unioni wedi'u cymryd i ddatrys y mater hwn.

Roedd y wardiau yn defnyddio system adborth llinell olchi Topiau a Thrôns i alluogi'r plant iau i roi sylwadau ar eu profiad. Roedd hyn yn golygu y gallent liwio un o'r topiau ar gyfer adborth cadarnhaol neu'r un o'r trôns ar gyfer adborth

negyddol. Roedd y sylwadau hyn ar gael i'w hystyried gan dimau'r staff er mwyn iddynt wneud newidiadau i wella'r gwasanaeth.

Roedd pob aelod o'r staff a gwblhaodd holiaduron AGIC yn cytuno bod ei sefydliad yn casglu adborth gan gleifion, ac roedd bron pob un ohonynt yn cytuno eu bod yn cael y wybodaeth ddiweddaraf am adborth. Roedd y mwyafrif o'r staff yn cytuno bod adborth gan gleifion yn cael ei ddefnyddio i wneud penderfyniadau yn yr adran.

Darparu gofal diogel ac effeithiol

Ystyriwyd i ba raddau y mae gwasanaethau'n darparu gofal diogel a dibynadwy o ansawdd uchel sy'n canolbwyntio ar gleifion unigol.

Ar y cyfan, roedd trefniadau ar waith i gadw'r cleifion yn ddiogel yn yr ardaloedd yr ymwelwyd â nhw.

Roedd trefniadau ar waith ar gyfer rheoli meddyginiaethau yn ddiogel. Fodd bynnag, nodwyd gennym fod angen gwelliannau o ran cysondeb gwiriadau dyddiol o dymheredd yr oergell lle'r oedd y feddyginiaeth yn cael ei storio ar Ward M.

Nid oedd gwybodaeth yn cael ei rheoli na'i storio'n ddiogel bob amser er mwyn atal mynediad anawdurdodedig a chynnal cyfrinachedd y cleifion.

Gofal diogel

Rheoli risg a hybu iechyd a diogelwch

Ar y cyfan, roedd yr uned yn ymddangos yn lân ac wedi'i goleuo'n briodol, ond mae'r amgylchedd yn dangos ôl traul ac mae angen rhoi sylw iddo. Mae amgylchedd a chynllun y wardiau yn cyflwyno nifer o heriau i'r rheolwyr a'r staff wrth ddarparu gofal diogel ac effeithiol, ac fe'u hamlygir yn yr adroddiad hwn. Soniodd y staff hefyd wrth y tîm arolygu am y cyfleusterau gwael sydd ar gael iddynt ar y wardiau. Yn eu plith roedd y toiledau, yr ystafell staff a'r ystafell a ddefnyddir i gyfnewid sifftiau. Roedd pob un ohonynt yn hen ac yn rhy fach i fodloni eu gofynion.

Edrychwyd ar gofrestr risg y bwrdd iechyd a oedd yn nodi, ym mis Rhagfyr 2009, nad oedd yr amgylchedd ar Ward Oakwood a Ward M yn addas at y diben. Cawsom sicrwydd fod y risg yn cael ei monitro'n rheolaidd a bod camau yn cael eu cymryd lle y bo'n bosibl i leihau'r risgiau hynny cymaint â phosibl. Dywedodd y staff wrthym eu bod wedi cael gwybod, pan gawsant eu symud yno dros ddeng mlynedd yn ôl, mai wardiau dros dro oeddent. Tynnwyd sylw'r bwrdd iechyd at broblemau gyda chynllun y wardiau plant a'r uned asesu bediatrig hefyd yn sgil arolygiad blaenorol AGIC o'r wardiau yn 2015. Ar yr adeg honno, cawsom wybod y byddai'r ardaloedd hyn yn cael eu hystyried yn unol â strategaeth datblygu ystadau gyffredinol y bwrdd iechyd. Gwnaethom argymhell y dylai'r bwrdd iechyd

fynd ati i weithredu ei strategaeth i ddatblygu'r wardiau plant a'r uned asesu bediatrig.

Siaradwyd â'r rheolwyr ac edrychwyd ar ddogfennau a oedd yn dangos bod grŵp prosiect wedi'i sefydlu i ystyried opsiynau ar gyfer datblygu canolfan bediatrig gofal brys ac argyfwng integredig a fyddai'n cynnwys yr uned asesu bediatrig a'r ddwy ward bediatrig. Er bod hyn yn gam cadarnhaol o ran dyfodol gwasanaethau pediatrig yn yr ysbyty, megis dechrau mae'r prosiect ac nid oes unrhyw amserlenni pendant ar gyfer y gwaith datblygu. Yn y cyfamser, argymhellwn fod yn rhaid i'r gwasanaeth barhau i nodi, monitro a gweithredu ar y risgiau a achosir gan yr amgylchedd gwael. Bydd hyn yn sicrhau bod iechyd, diogelwch a lles y claf yn cael eu hybu a'u diogelu.

Gwelodd y tîm arolygu fod trefniadau ar waith i gadw'r cleifion yn ddiogel yn yr ardaloedd yr ymwelwyd â nhw. Roedd modd cael mynediad i'r ddwy ward drwy system intercom. Gwelsom y staff yn holi'r ymwelwyr am y rhesymau dros eu hymweliad cyn caniatáu iddynt gael mynediad i'r wardiau. Gwelsom y cleifion yn gwisgo bandiau adnabod ar eu garddynau hefyd. Byddai hyn yn lleihau'r risg y gallai camgymeriad gael ei wneud o ran meddyginiaeth a/neu o ran adnabod y claf pe bai angen cynnal ymchwiliadau clinigol y tu allan i amgylchedd y ward.

Roedd canllawiau ar waith ym mhob rhan o'r bwrdd iechyd ar gyfer hyrwyddo diogelwch babanod a'u hatal rhag cael eu herwyddio. Fodd bynnag, roedd y polisi wedi dyddio ac roedd angen ei adolygu.

Roedd hysbysiad ar y troli dadebru yn cadarnhau ei fod yn cynnwys cyfarpar heb latecs. Roedd hyn yn golygu y byddai cyn lleied o risg â phosibl o anaffylacsis mewn sefyllfa frys pe bai gan glaf alergedd i latecs.

Dyweddodd y staff wrthym, y diwrnod cyn ein harolygiad, fod aelod o'r staff ar Ward M wedi gorfod cael cymorth brys gyda chlaf. Roedd yr aelod hwnnw wedi canu'r gloch argyfwng; fodd bynnag, nid oedd unrhyw aelod arall o staff ar gael yn syth i helpu ar y ward ac nid oedd modd clywed y gloch o Ward Oakwood. O ganlyniad, ni ddaeth unrhyw un i'w helpu. Fodd bynnag, gweithredodd yr aelod o staff yn effeithiol wrth ymateb i anghenion y claf ar ei ben ei hun. Nodwyd hefyd nad oedd unrhyw fag ailanadlu ar gael yn ddigon agos i'r aelod o staff ei ddefnyddio.

Trafodwyd hyn ag uwch aelod o'r staff nad oedd yn ymwybodol o'r digwyddiad. Cawsom ein hysbysu yn ddiweddarach fod y digwyddiad wedi'i gofnodi'n briodol ar system cofnodi digwyddiadau'r bwrdd iechyd. Cafodd y mater ei atgyfeirio'n syth i'r adran ystadau a nododd gamau unioni i gynyddu sŵn y gloch argyfwng er mwyn sicrhau y gellir ei chlywed o Ward Oakwood. Cawsom sicrwydd y byddai'r gwaith hwn yn cael ei gwblhau fel mater o flaenoriaeth. Gwnaethom

hefyd argymell y dylid sicrhau ei bod yn hawdd cael gafaél ar fagiau ailanadlu mewn argyfwng sy'n ymwneud â chlaf yn unol â safonau Resus UK ar gyfer gofal aciwt pediatrig³.

Gwelsom nad oedd drws y cwpwrdd glanhau rhwng Ward Dyfed a Ward Oakwood wedi'i gloi'n ddiogel. Nid oedd y coffr y tu mewn i'r cwpwrdd wedi'i gloi ychwaith ac roedd modd cael mynediad iddo. Roedd y troli glanhau a oedd yn cynnwys cyfarpar a sylweddau glanhau yn y coridor y tu allan i'r cwpwrdd. Gwelsom hefyd nad oedd yr olchfa y tu ôl i orsaf y nyrsys ar Ward M wedi'i chloi ac roedd modd cael gafaél ar boteli o hylif golchi dwylo. Roedd y troli glanhau ar y ward wedi'i adael heb oruchwyliaeth hefyd. Gallai'r materion hyn beri risg o fynediad anawdurdodedig i sylweddau peryglus i'r cleifion a'r ymwelwyr.

Yr hyn sydd angen ei wella

Mae'n rhaid i'r bwrdd iechyd sicrhau'r canlynol:

- Ei fod yn parhau i nodi, monitro a gweithredu ar unrhyw risgiau a nodir o ganlyniad i'r amgylchedd er mwyn sicrhau bod iechyd, diogelwch a lles y cleifion yn cael eu hyrwyddo a'u diogelu
- Bod y polisi ar gyfer hyrwyddo diogelwch babanod a'u hatal rhag cael eu herwyddio yn cael ei adolygu
- Bod camau yn cael eu cymryd i sicrhau bod modd clywed y gloch argyfwng ar Ward M ar Ward Oakwood
- Ei bod yn hawdd cael gafaél ar fagiau ailanadlu ym mhob cilfan
- Bod yr holl gyfarpar a chyflenwadau glanhau'n cael eu storio'n briodol ac yn ddiogel.

³ <https://www.resus.org.uk/quality-standards/acute-care-equipment-and-drug-lists/#paed>

Atal briwiau pwysu a niwed i feinweoedd

Gwnaethom ystyried camau i atal briwiau pwysu a niwed i feinweoedd ar gyfer cleifion ar y ddwy ward. Yn y sampl o gofnodion cleifion a welwyd, gwelsom fod ymdrechion wedi'u gwneud i atal cleifion rhag datblygu briwiau pwysu. Gwelsom fod asesiad o'r risg y gallai cleifion gael briwiau pwysu yn cael ei gynnal wrth iddynt gael eu derbyn lle y bo'n briodol, a bod cynllun gofal yn cael ei ddatblygu a'i ddogfennu yn unol â'r sgôr asesu risg.

Atal cwympiadau

Yn y sampl o gofnodion cleifion a welwyd, gwelsom fod ymdrechion wedi'u gwneud i asesu a nodi cleifion a oedd yn wynebu risg o gwmpo. Lle y bo'n briodol, roedd cleifion wedi cael eu hasesu ar gyfer y risg o gwmpo ac roedd cynllun gofal cyfredol a oedd wedi'i deilwra i'r claf wedi'i roi ar waith a'i werthuso.

Atal a rheoli heintiau

Nodwyd gennym fod ardaloedd clinigol y ward a arolygwyd yn ymddangos yn lân ac yn daclus. Gwelwyd bod y staff domestig yn bresennol ar amseroedd gwahanol o'r dydd. Fodd bynnag, gwelsom rai ardaloedd lle roedd angen gwneud gwelliannau i drefniadau rheoli heintiau cyffredinol.

Er i ni weld bod pob ardal ar y ddwy ward yn lân, roedd anghysondebau o ran yr amserlenni glanhau a gwblhawyd gan y staff domestig ar y ddwy ward. Roedd hyn yn golygu na allem fod yn sicr bod y wardiau yn cael eu glanhau'n rheolaidd, a allai achosi cynnydd yn y risg o haint.

Gwelsom fod nifer o'r cadeiriau ar y wardiau wedi rhwygo a bod modd gweld y llenwad sbwng y tu mewn iddynt. Gwelsom o leiaf wyth cadair a oedd wedi'u difrodi a oedd yn cynnwys rhai mewn ciwbiclau a ddefnyddir at ddibenion ynysu. Mae hyn yn peri risg o haint, a rhaid i'r cadeiriau gael eu hatgyweirio neu rhaid gosod rhai newydd yn eu lle Gwnaethom siarad â rheolwyr a ddywedodd wrthym fod y mater hwn wedi'i uwchgyfeirio i'r tîm ystadau. Fodd bynnag, nid oedd cadeiriau newydd wedi'u gosod hyd yma.

Cawsom sicrwydd fod proses ar waith ar gyfer sicrhau bod teganau, llyfrau a chyfarpar chwarae arall y plant yn cael eu glanhau'n rheolaidd. Mae hyn yn golygu eu bod mor lân ac mor ddiogel â phosibl i'r plant eu defnyddio.

Gwelsom fod cyfarpar diogelu personol fel menig a ffedogau untro ar gael ym mhob ardal a'i fod yn cael ei ddefnyddio gan yr holl weithwyr gofal iechyd proffesiynol er mwyn lleihau'r risg o groes-heintio.

Nid oes gan y gwasanaeth ystafell en-suite ar wahân ar gyfer cleifion pe bai angen gofal nyrsio ataliol. Gofelir am gleifion mewn cilfan yn yr uned dibyniaeth uchel lle mae angen iddynt rannu cyfleusterau â chleifion eraill. Roedd hyn yn golygu bod risg y gallai haint gael ei drosglwyddo i gleifion eraill.

Roedd cyfleusterau golchi a sychu dwylo ar gael, ynghyd â phosteri a oedd yn dangos y weithdrefn gywir ar gyfer golchi dwylo. Gwelsom fod y staff yn golchi eu dwylo'n briodol ac yn defnyddio gel saniteiddio ar gyfer y dwylo pan fo angen hynny. Gwelsom nad oedd unrhyw gel saniteiddio ar gyfer y dwylo ar gael ar lefel plentyn. Dywedodd y rheolwyr wrthym fod gel saniteiddio wedi'i osod ar lefel is yn flaenorol, ond roedd y plant yn ei ordefnyddio, gan beri'r risg y gallai rywun lithro arno.

Er bod y cyfleusterau ymolchi i gyd yn lân, roedd angen diweddarau'r mwyafrif ohonynt. Gwelsom hefyd fod y llawr o amgylch y biniau yn yr ystafell ymolchi a'r toiled ar Warm M wedi'i staenio â rhwd.

Roedd hyfforddiant atal a rheoli heintiau yn orfodol i'r staff. Dywedodd bron pob un o'r staff yn eu holiaduron eu bod wedi ymgymryd â dysgu a datblygu ym maes atal a rheoli heintiau yn ystod y 12 mis diwethaf.

Gwnaethom siarad â rheolwyr a ddywedodd fod archwiliadau rheoli heintiau misol yn cael eu cwblhau ar y ddwy ward; fodd bynnag, oherwydd y pwysau yn ystod y gaeaf, heriau o ran staffio a'r angen i flaenoriaethu gofal clinigol, nid oedd archwiliadau wedi'u cynnal yn rheolaidd. Dangoswyd sampl o archwiliadau rheoli heintiau i ni ar gyfer misoedd blaenorol ac roedd y cyfraddau cydymffurfio yn uchel. Gwelsom hefyd fod modd i'r cleifion weld canlyniadau archwiliadau blaenorol a oedd yn cael eu harddangos wrth y fynedfa i'r ddwy ward. Roedd canlyniadau archwiliadau hylendid dwylo rheolaidd yn cael eu harddangos hefyd, ac roedd y cyfraddau cydymffurfio yn uchel.

Gwnaethom siarad â'r staff ac roedd pob un ohonynt yn gallu disgrifio'r 5 cam gofal⁴. Drwy drafodaeth, dangosodd y staff hefyd fod ganddynt wybodaeth dda

⁴ Mae'r 5 cam gofal ar gyfer hylendid dwylo yn diffinio'r camau allweddol pan ddylai gweithwyr gofal iechyd sicrhau hylendid dwylo.

am y weithdrefn i'w dilyn pe bai digwyddiad yn ymwneud â nodwydd⁵. Byddai hyn yn helpu i ddiogelu'r staff a'r cleifion rhag heintiau ataliadwy sy'n gysylltiedig â gofal iechyd.

Yr hyn sydd angen ei wella

Mae rhaid i'r bwrdd iechyd sicrhau'r canlynol:

- Bod amserlenni glanhau'n cael eu cwblhau'n gyson
- Bod cadeiriau newydd yn cael eu gosod yn lle'r rhai sydd wedi'u difrodi ar y ddwy ward
- Dylai archwiliadau rheoli heintiau gael eu cwblhau'n gyson, yn unol â'r polisi a'r canlyniadau a ddangosir ar y wardiau lle bynnag y bo'n bosibl.

Maeth a hydradu

Yn ystod ein harolygiad, gwnaethom edrych ar y ffordd roedd anghenion maeth y cleifion yn cael eu diwallu. Gwelsom fod anghenion maeth unigol y cleifion yn cael eu hasesu yn unol â llwybr gofal maethol Cymru Gyfan⁶. Roedd rhieni/gofalwyr yn cael eu hannog a'u cynorthwyo i helpu eu plentyn i fwyta ac yfed yn ôl y gofyn.

Gwnaethom arsylwi ar amseroedd bwyd a gwelsom fod y cleifion yn cael dewis o fwyd. Fodd bynnag, nid oedd y dewis hwnnw yn apelio at blant ifanc. Dywedodd un claf wrthym fod y dewis o ran brechwast yn gyfyngedig, a bod y bwyd poeth yn cael ei weini'n lled gynnes neu'n gynnes. Gwelsom hefyd fod y plant yn gwrthod pob dewis o fwyd a oedd ar gael amser cinio. Dywedodd y staff wrthym fod dewisiadau bwyd y cleifion yn cael eu hadolygu ar hyn o bryd, gyda'r bwriad o ddarparu bwyd y gall plant iau fwyta gyda'u bysedd a dewisiadau bwyd iach gwell er mwyn diwallu anghenion maeth y cleifion. Dywedwyd wrthym hefyd y byddai

⁵ Weithiau, caiff anafiadau a achosir gan nodwyddau a ddefnyddir mewn gweithdrefnau meddygol eu galw'n anafiadau a achosir gan nodwyddau neu anafiadau a achosir gan gyfarpar miniog.

⁶ Mae Llwybr Gofal Maethol Cymru Gyfan ar gyfer ysbytai yn nodi manylion y llwybr ar gyfer sgrinio maeth cleifion pan gânt eu derbyn a'r gofal maethol tra byddant yn aros yn yr ysbyty.

gwasanaeth troli yn cael ei gyflwyno er mwyn sicrhau bod y cleifion yn gallu cael gafael ar fyrbrydau iach rhwng prydau.

Gwnaethom siarad â staff a oedd wedi nodi achlysuron pan nad oedd rhieni/gofalwyr wedi gallu bwyta nac yfed tra eu bod ar y wardiau gan nad oes unrhyw fwyd yn cael ei ddarparu ar eu cyfer. Yn ôl y staff, roedd cydnabyddiaeth nad oedd rhieni/gofalwyr eisiau bod ar wahân i'w plentyn ar y wardiau. Dywedodd y rheolwyr wrthym fod cynllun yn cael ei ystyried a fyddai'n galluogi rhieni/gofalwyr i fwynhau prydau gyda'u plant a chael gafael ar fwyd y tu allan i amseroedd bwyd hefyd. Gwelsom fod y rhieni/gofalwyr yn gallu cael gafael ar ddiodydd poeth o'r gegin i ymwelwyr.

Dywedodd y staff wrthym eu bod yn gallu darparu ar gyfer cleifion sydd â gofynion deietegol penodol er mwyn sicrhau bod bwyd priodol ar gael iddynt.

Gwelsom fod posteri yn cael eu harddangos a oedd yn pwysleisio'r ffaith na ddylid cario diodydd poeth o amgylch y wardiau. Bydd hyn yn lleihau'r risg y caiff y plant losgiadau a sgaldiadau o ddiodydd poeth yn unol ag ymgyrch Te Diogel⁷.

Roedd prydau yn cael eu gweini o droli yn yr ardal fwyta mewn ward agored rhwng Ward Oakwood a Ward M. Dywedodd y staff wrthym nad oedd y troli bwyd yn mynd i mewn i'r wardiau gan nad oedd rhai o'r cleifion yn gallu bwyta dim cyn iddynt gael eu llawdriniaeth.

Gwelsom fod y cleifion yn gallu cael gafael ar ddŵr yn hawdd. Roedd gorsaf ddŵr ar gael ar Ward Oakwood ac yn yr uned asesu bediatrig ac roedd digon o gwpanau a jygiau ar gael. Roedd y staff yn annog y plant i ofyn am ragor o ddŵr neu helpu eu hunain os oeddent yn ddigon hen. Yn ôl un o'r cleifion y gwnaethom siarad ag ef, roedd y ffaith ei fod yn gallu mynd i ôl ei fwyd a'i ddiod drosto'i hun yn gwneud iddo deimlo'n annibynnol.

Rheoli meddyginiaethau

Yn gyffredinol, gwelsom fod trefniadau ar waith ar gyfer rheoli'r meddyginiaethau a ddefnyddiwyd yn yr ardaloedd clinigol yr ymwelwyd â nhw yn ddiogel. Gwelsom

⁷ Ymgyrch genedlaethol yw Te Diogel sy'n codi ymwybyddiaeth o'r risg o losgiadau o ddiodydd poeth ymhlith plant ifanc. Mae'n rhoi cyngor ymarferol ar sut i'w hosgoi a sut i wella cymorth cyntaf ar gyfer llosgiadau.

fod y staff yn dilyn polisi'r bwrdd iechyd ar reoli meddyginiaethau gan gynnwys defnyddio ffedogau baner goch⁸ a chael amser tawel i gyfrifo'r ddos o feddyginiaeth. Gwelsom ddogfennaeth a oedd yn dangos bod archwiliadau sicrhau ansawdd yn cael eu cynnal ym maes rheoli meddyginiaeth er mwyn sicrhau bod safonau yn cael eu cynnal.

Gwelodd y tîm arolygu dystiolaeth o arferion da ym mhob un o'r meysydd rhoi meddyginiaeth. Edrychwyd ar y ffordd roedd Siartiau Cyffuriau Cymru Gyfan yn cael eu cwblhau a nodwyd bod y cofnodion yn gyson ac yn gywir, gan gynnwys enwau'r cleifion a'r amseroedd pan gafodd y cyffuriau eu rhagnodi a'u rhoi. Roedd pob un o'r cofnodion yr edrychwyd arnynt yn cael eu cofnodi yn y fan a'r lle ac yn cael eu llofnodi a'u dyddio'n briodol.

Gwelsom dystiolaeth o arfer da gan staff y ward a oedd yn gwirio bandiau adnabod y cleifion yn erbyn siartiau cyffuriau cyn iddynt roi'r feddyginiaeth. Byddai hyn yn lleihau'r risg y gallai camgymeriad gael ei wneud gyda'r feddyginiaeth a/neu wrth adnabod y claf. Gwelsom fod taldra, pwysau ac oedran y plant yn cael eu cofnodi hefyd. Gwneir hyn er mwyn nodi a yw plentyn dan bwysau neu dros bwysau o ran aeddfedrwydd y corff. Os felly, byddai angen newid y ddos o feddyginiaeth yn unol â hynny.

Roedd gan y ward dechnegydd fferylliaeth dynodedig a fyddai'n ymweld yn ddyddiol yn ystod oriau gwaith i gasglu siartiau cyffuriau a'r feddyginiaeth yr oedd ei hangen ar y cleifion i fynd adref gyda nhw. Caiff y feddyginiaeth ei dychwelyd yn amserol, gan gefnogi'r broses o ryddhau'r cleifion yn brydlon. Dywedwyd wrthym fod fferyllwydd ar gael bob amser i gael gafael ar feddyginiaethau y tu allan i oriau swyddfa. Gwelsom ddogfennaeth hefyd a oedd yn dangos bod archwiliadau o gyffuriau a reolir yn cael eu cynnal yn rheolaidd ar y ddwy ward gan un o fferyllwyr y bwrdd iechyd.

Roedd yn hawdd i'r staff gael gafael ar bolisi'r bwrdd iechyd ar reoli meddyginiaethau yn electronig ar y fewnwyd. Roedd y polisi yn cynnwys gwybodaeth am roi meddyginiaeth yn ddiogel a storio, rhagnodi a rhoi cyffuriau yn ddiogel.

⁸ Mae'r staff yn gwisgo ffedogau coch i ddangos eu bod wrthi'n paratoi neu'n rhoi meddyginiaeth i'r cleifion ac na ddylid tynnu eu sylw na tharfau arnynt yn ystod y prosesau hyn.

Fodd bynnag, gwelodd y tîm arolygu fod anghysondebau ar Ward M o ran y gwiriadau dyddiol a gynhaliwyd ar dymheredd yr oergell lle'r oedd y feddyginiaeth yn cael ei storio. Roedd hyn yn golygu na allem fod yn sicr bod unrhyw anghysondebau o ran y tymereddau storio a nodwyd gan y gwneuthurwyr yn cael eu nodi a'u huwchgyfeirio. Roedd yn galonogol nodi bod y staff wedi ymateb yn gyflym i fynd i'r afael â'r materion a godwyd gennym.

Ymdriniwyd â'n pryderon yn hyn o beth o dan ein proses sicrwydd uniongyrchol. O ganlyniad i hyn, gwnaethom ysgrifennu at y gwasanaeth yn union wedi'r arolygiad gan nodi bod angen cymryd camau unioni ar frys. Mae manylion y gwelliannau uniongyrchol a nodwyd gennym yn Atodiad B.

Gwelsom aelod o'r staff yn rhoi meddyginiaeth i glaf yn yr ystafell chwarae hefyd. Trafodwyd hyn â'r uwch-reolwyr a gadarnhaodd na ddylai unrhyw fath o feddyginiaeth gael ei rhoi yn yr ystafell chwarae. Cawsom sicrwydd y byddent yn mynd i'r afael â'r mater hwn ac y byddai pob aelod o'r staff yn cael ei atgoffa o bwysigrwydd rhoi meddyginiaeth i gleifion yn briodol, yn unol â pholisi'r bwrdd iechyd.

Yr hyn sydd angen ei wella

Mae'n rhaid i'r bwrdd iechyd sicrhau bod unrhyw feddyginiaeth yn cael ei rhoi i gleifion yn unol â'r polisi rheoli meddyginiaeth.

Diogelu plant ac oedolion sy'n wynebu risg

Gwelsom fod y bwrdd iechyd wedi rhoi polisïau a gweithdrefnau ar waith i nodi, hybu a diogelu lles plant ac oedolion a oedd yn agored i niwed neu'n wynebu risg.

Gwnaethom siarad â'r staff a gadarnhaodd eu bod yn gwybod pwy oedd yr arweinydd diogelu. Gwnaethant nodi hefyd y byddent yn gyfforddus yn mynd at eu cydweithwyr i roi gwybod am bryderon.

Roedd hyfforddiant diogelu yn orfodol ar gyfer y staff ar y wardiau. Dywedodd y rhan fwyaf o'r staff a gwblhaodd holiaduron eu bod wedi cael hyfforddiant diogelu yn ddiweddar. Cawsom sicrwydd hefyd fod y ffigurau cydymffurfio ar gyfer hyfforddiant diogelu ar gyfer staff ar y ddwy ward yn uchel.

Dyfeisiau meddygol, offer a systemau diagnostig

Yn gyffredinol, gwelsom fod trefniadau ar waith ar gyfer rheoli'r feddyginiaeth a ddefnyddir yn yr ardaloedd clinigol yr ymwelwyd â nhw yn ddiogel. Gwelsom fod meddyginiaethau yn cael eu storio'n ddiogel pan nad oeddent yn cael eu defnyddio.

Fodd bynnag, roedd otosgop⁹ (cyfarpar a ddefnyddir i edrych y tu mewn i'r glust) ar droli ar Ward Oakwood wedi mynd heibio'i ddyddiad defnyddio. Uwchgyfeiriwyd y mater i uwch-aelodau o'r staff ac ymdriniwyd ag ef yn briodol.

Gwelsom fod cyfarpar a dyfeisiau meddygol i ddiwallu anghenion y cleifion ar gael ar y ddwy ward. Fodd bynnag, gwnaethom siarad ag aelodau o'r staff a ddywedodd wrthym am achlysuron lle nad oedd eitemau penodol o gyfarpar wedi bod ar gael ar y wardiau pan oedd eu hangen. Dywedwyd wrthym y gallai'r broses o archebu stoc fod yn heriol, gan nad oedd unrhyw unigolyn yn gyfrifol am wneud hynny ac roedd yr adnoddau yn rhedeg allan weithiau. Dywedodd tua thraean o'r staff a gwblhaodd holiaduron fod ganddynt ddigon o ddeunyddiau, cyflenwadau a chyfarpar i wneud eu gwaith bob amser neu fel arfer, a dywedodd y gweddill fod digon ar gael weithiau.

Gwelsom fod prosesau ar waith i sicrhau bod cyfarpar yn cael ei lanhau a'i gynnal a'i gadw er mwyn sicrhau ei fod yn briodol ar gyfer y defnydd a fwriadwyd.

Yr hyn sydd angen ei wella

Mae'n rhaid i'r bwrdd iechyd sicrhau'r canlynol:

- Bod yr holl gyfarpar yn cael ei wirio'n rheolaidd o fewn amserlenni priodol er mwyn sicrhau ei fod o fewn ei ddyddiad defnyddio ac yn ddiogel i'w ddefnyddio
- Bod system ar waith i sicrhau bod yr holl gyfarpar angenrheidiol ar gael i'r staff ar y wardiau er mwyn sicrhau y gellir darparu gofal diogel ac effeithiol.

⁹ Cyfarpar a ddefnyddir i edrych y tu mewn i'r glust

Gofal effeithiol

Gofal diogel a chlinigol effeithiol

Yn seiliedig ar drafodaethau â'r rheolwyr a nifer o'r staff ar y ddwy ward, tynnwyd sylw'r tîm arolygu at y ffaith bod prinder staff ar hyn o bryd. Cyfeirir at y mater hwn ymhellach yn adran Gweithlu'r adroddiad hwn a gwnaed argymhelliad mewn perthynas ag ef. Er i ni gydnabod yr ymdrechion sy'n mynd rhagddynt i recriwtio staff ychwanegol, gwelsom waith tîm cydweithredol da, gyda'r staff yn helpu ei gilydd i gyflenwi sifftiau ar y ddwy ward a'r uned asesu bediatrig. Roedd yn gadarnhaol gweld bod y staff yn hyblyg, yn barod i weithio sifftiau ychwanegol ac i gyflenwi ar wardiau eraill. Dywedwyd wrthym hefyd fod meddyg ymgynghorol a chofrestrydd ar gael 24 awr y dydd, saith diwrnod yr wythnos ar Ward M. Mae'r naill a'r llall yn sicrhau y darperir gofal diogel ac effeithiol.

Yn y cofnodion cleifion a welwyd, gwelsom fod llwybrau cleifion yn cael eu cyflawni a bod y staff yn darparu gofal effeithiol. Adlewyrchwyd hyn hefyd yn y nifer bach o lawdriniaethau a oedd wedi cael eu canslo. Nodwyd hefyd fod y staff yn dilyn y prosesau gofynnol wrth baratoi'r cleifion ar gyfer mynd i'r theatr, a chawsom sicrwydd bod arferion diogel a da yn mynd rhagddynt yn y maes hwn.

Gwelodd y tîm arolygu staff y ward yn trafod y llwybr a gynlluniwyd ar gyfer y claf, gan gynnwys y broses ryddhau, gyda'r cleifion a'u teuluoedd/gofalwyr pan gawsant eu derbyn. Ystyriwyd bod hyn yn arfer da.

Drwy drafodaethau â'r staff ar Ward M, roedd hi'n amlwg bod y staff yn ymwybodol o sepsis a bod canllawiau cenedlaethol ar waith ar gyfer trin y cyflwr hwn yn brydlon. Roedd y staff yn gwybod ble y gellid cael gafael ar bolisi'r bwrdd iechyd ar sepsis¹⁰. Fodd bynnag, roedd gan y staff y gwnaethom siarad â nhw ar Ward Oakwood ddealltwriaeth gymysg o'r llwybr sepsis pediatriig. Argymhellwyd y dylid gwneud ymdrechion i godi proffil llwybr sepsis a meithrin dealltwriaeth ohono ar y ward hon.

¹⁰ Cyflwr peryglus iawn yw sepsis sy'n digwydd pan fo adwaith y corff i haint yn peri anaf i feinwe ac organau'r corff.

Yr hyn sydd angen ei wella

Mae'n rhaid i'r bwrdd iechyd sicrhau bod gan bob aelod o'r staff ddealltwriaeth dda o'r llwybr sepsis pediatrig.

Gwella ansawdd, ymchwil ac arloesi

Dywedwyd wrthym mai'r bwrdd iechyd oedd y sefydliad iechyd cyntaf yn y DU i fabwysiadu siarter plant. Caiff y siarter ei hategu gan y gwerthoedd a nodir yng Nghonfensiwn y Cenhedloedd Unedig ar Hawliau'r Plentyn¹¹. Mae'n nodi 10 addewid sy'n sicrhau y bydd plant a phobl ifanc yn ymwybodol y cânt eu parchu ac y bydd pobl yn gwrando arnynt ac yn gofalu amdanynt wrth iddynt dderbyn triniaeth yn y bwrdd iechyd. Roedd gwybodaeth am y siarter plant i'w gweld ar y ddwy ward ac ar wefan y bwrdd iechyd.

Dywedwyd wrthym hefyd fod gan y gwasanaeth banel cynghori ieuenctid, sef grŵp o 20 o bobl ifanc o bob rhan o dde Cymru sy'n ymroddedig i wella gwasanaethau iechyd i blant a phobl ifanc. Dywedwyd wrthym fod aelodau o'r panel ieuenctid, ynghyd â nyrs profiad cleifion, yn cynnal archwiliadau '15 cam'¹² dirybudd o'r wardiau ac yn rhoi adborth ar eu barn o'r gwasanaeth o safbwynt y claf. Dywedodd y rheolwyr wrthym fod ymdrechion cadarnhaol yn cael eu gwneud i addasu'r model gwasanaeth ar gyfer plant a phobl ifanc, yn unol â'r adborth a gafwyd o'r archwiliadau hynny. Mae aelodau o'r panel cynghori ieuenctid hefyd yn eistedd ar baneli cyfweld ar gyfer rheolwyr gwasanaethau pediatrig, gan gynnwys rolau metron a phennaeth nyrsio.

Dywedodd y staff wrthym fod y bwrdd iechyd wedi cymryd rhan yn flaenorol mewn treialon ymchwil PUMA¹³ ar y cyd â phrifysgolion lleol a chanolfannau

¹¹ Cytundeb hawliau dynol yw Confensiwn y Cenhedloedd Unedig ar Hawliau'r Plentyn. Mae'n nodi hawliau sifil, gwleidyddol, economaidd, cymdeithasol, iechyd a diwylliannol plant.

¹² Mae'r her 15 cam yn canolbwyntio ar weld gofal drwy lygaid claf neu riant/gofalwr ac yn ystyried eu hargraffiadau cyntaf.

¹³ Astudiaeth ymchwil sy'n cymharu canlyniadau iechyd a chyfraddau marwolaethau plant yn y DU â gwledydd Ewropeaidd eraill

ymchwil glinigol. Gwelwyd tystiolaeth o hyn yn y canllawiau gwybodaeth a ddarparwyd i gleifion ar y wardiau a thrwy drafodaethau â'r staff.

Llywodraethu gwybodaeth a thechnoleg cyfathrebu

Ystyriodd y tîm arolygu y trefniadau ar gyfer cyfrinachedd cleifion a chydymffurfiaeth â Rheoliadau Llywodraethu Gwybodaeth a'r Rheoliad Cyffredinol ar Ddiogelu Data (2018) yn yr uned. Ar Ward Oakwood a Ward M, gwelsom nad oedd gwybodaeth cleifion yn cael ei rheoli na'i storio'n ddiogel, er mwyn atal mynediad anawdurdodedig a chynnal cyfrinachedd cleifion. Y rheswm dros hyn oedd bod cofnodion cleifion yn cael eu storio mewn trolïau nad oeddent wedi'u cloi ac roedd adegau pan nad oedd staff yn bresennol yn yr ardaloedd hyn. Roedd hyn yn golygu bod risg y gallai cleifion neu ymwelwyr â'r wardiau gael gafael ar wybodaeth am gleifion.

Ymdriniwyd â'n pryderon yn hyn o beth o dan ein proses sicrwydd uniongyrchol. Mae manylion y gwelliannau uniongyrchol a nodwyd gennym yn Atodiad B.

Roedd y fewnrwyd yn llawn gwybodaeth i'r staff, gan gynnig amrywiaeth eang o bolisïau a gweithdrefnau clinigol yn ymwneud â phediatreg a materion meddygol yr oedd yn hawdd cael gafael arnynt. Yn ôl y staff y gwnaethom siarad â nhw, gellid cael gafael arnynt yn hawdd ar y fewnrwyd. Roedd hyn yn golygu bod y staff yn gallu cael gafael ar yr holl bolisïau, eu darllen a'u defnyddio.

Cadw cofnodion

Gwnaethom ystyried sampl o gofnodion y cleifion ar y ddwy ward. Edrychwyd ar naw cofnod i gyd. Yn gyffredinol, roedd cofnodion y cleifion o safon dda, yn hawdd eu deall ac yn llawn gwybodaeth. Ategwyd y cofnodion ymhellach gan siart hylif ar wahân, cynlluniau gofal nyrsio, asesiadau maeth, codi a chario a risg, siart cyffuriau a siart arsylwi ar wahân.

Nid oedd dau o'r cofnodion a welsom yn cynnwys cofnod ar wahân o asesiadau poen, er mai poen oedd un o'r agweddau allweddol ar y broses o reoli'r claf. Trafodwyd hyn gyda rheolwr a nododd fod y trefniadau ar gyfer rheoli poen yn cael eu cynnwys yn aml yng nghynllun gofal nyrsio'r claf, yn hytrach na'r ddogfen briodol. Fel arfer gorau, argymhellwn y dylid cofnodi trefniadau rheoli poen ar y siart arsylwi rheoli poen ac y dylid cynnwys y cleifion a'u teuluoedd/gofalwyr yn y broses o gofnodi dwysedd poen.

Yr hyn sydd angen ei wella

Mae'n rhaid i'r bwrdd iechyd sicrhau bod trefniadau rheoli poen yn cael eu cofnodi'n briodol yng nghofnodion y cleifion.

Ansawdd rheolaeth ac arweinyddiaeth

Ystyriwyd y ffordd y mae'r gwasanaethau yn cael eu rheoli a'u harwain ac a yw'r gweithle a'r diwylliant sefydliadol yn helpu i ddarparu gofal diogel ac effeithiol. Ystyriwyd hefyd y ffordd y mae'r gwasanaethau yn adolygu ac yn monitro eu perfformiad eu hunain yn erbyn y Safonau Iechyd a Gofal.

Gwelsom fod y gwasanaeth yn cynnal nifer o gyfarfodydd rheolaidd i wella gwasanaethau a chryfhau trefniadau llywodraethu.

Nid oedd goruchwyliaeth ddigonol gan reolwyr y wardiau i fod yn hyderus bod proses gadarn ar waith ar gyfer gweithgareddau archwilio.

Gwelsom fod y staff ar y ddwy ward yn gydlynol a bod ganddynt gydberthynas dda â'u rheolwyr. Roedd hyn yn dangos bod y tîm yn cydweithio'n dda. Fodd bynnag, argymhellwyd y dylai uwch-reolwyr adolygu rotâu'r staff er mwyn sicrhau bod y lefelau staffio yn briodol i ddarparu gofal diogel ac amserol.

Llywodraethu, arweinyddiaeth ac atebolrwydd

Roedd y grŵp gwasanaethau plant yn cynnal nifer o gyfarfodydd rheolaidd i wella gwasanaethau a chryfhau trefniadau llywodraethu. Ymhlith y cyfarfodydd hynny roedd cyfarfodydd risg glinigol bediatrig misol a gynhelir yn Ysbyty Treforys. Gwelsom fod yr eitemau i'w trafod ar yr agenda yn cynnwys digwyddiadau y rhoddwyd gwybod amdanynt, ymchwiliadau a'u canfyddiadau, y wybodaeth ddiweddaraf am y gofrestr risg a llywodraethu gwybodaeth.

Ymhlith y cyfarfodydd eraill roedd cyfarfodydd sicrwydd a dysgu misol a chyfarfodydd misol y pwyllgor ansawdd a diogelwch, yn ogystal â chyfarfodydd y bwrdd gwasanaethau plant a chyfarfodydd arweinwyr pediatrig. Dywedodd y staff wrthym fod cyfarfodydd ar gyfer y staff cyfan wedi'u cynnal yn y gorffennol. Fodd bynnag, bu'n anodd i'r staff fynychu'r cyfarfodydd hynny a chyflawni eu hymrwymadau i'r gwasanaeth.

Dywedodd y rheolwyr wrthym fod yr adborth o'r cyfarfodydd yn cael ei roi i staff y wardiau ar lafar gan y prif nyrsys. Byddai hyn yn digwydd yn ystod cyfarfod dyddiol 'o amgylch y tân' pan fyddai gwybodaeth gryno yn cael ei rhoi am y

cleifion a materion y dydd. Dywedwyd wrthym fod y cyfarfod hwn hefyd yn gyfle i roi gwybodaeth am newidiadau sylweddol yn y bwrdd iechyd, canmoliaeth gan gleifion neu deuluoedd, meysydd o arfer da, archwiliadau a themâu cwyno. Dywedwyd wrthym hefyd fod rhywfaint o wybodaeth yn cael ei rhoi i'r staff dros yr e-bost neu'n cael ei harddangos ar hysbysfyrddau yn yr ystafell staff.

Cawsom sgwrs â'r staff a ddisgrifiodd y broses ar gyfer cofnodi digwyddiadau, camgymeriadau neu gamgymeriadau a fu bron â digwydd ar system cofnodi digwyddiadau'r bwrdd iechyd. Dywedodd y staff eu bod yn teimlo eu bod yn cael eu hannog a'u cefnogi i roi gwybod am ddigwyddiadau difrifol, ond dywedodd rhai ohonynt nad oeddent bob amser yn cael adborth ar y gwersi a ddysgwyd yn dilyn hynny.

Roedd tua thraean o'r staff a gwblhaodd holiaduron yn cytuno bod staff a oedd yn rhoi gwybod am gamgymeriadau yn cael eu trin yn deg, ond roedd traean ohonynt yn anghytuno. Roedd y rhan fwyaf o'r ymatebwyr yn cytuno bod eu sefydliad yn annog y staff i roi gwybod am ddigwyddiadau a chamgymeriadau a fu bron â digwydd, ond roedd dau yn anghytuno. Dywedodd tua 40% o'r ymatebwyr fod y sefydliad yn rhoi'r bai ar bobl sy'n gysylltiedig â chamgymeriadau neu gamgymeriadau a fu bron â digwydd, neu yn eu cosbi amdanynt. Dywedodd un aelod o'r staff:

"Nid ydym bob amser yn cael gwybod am y canlyniadau pan roddir gwybod am ddigwyddiadau ac weithiau maen nhw'n gwneud i ni deimlo nad yw'n iawn i ni roi gwybod amdanynt, yn enwedig os ydynt yn ymwneud â lefelau staffio ac aciwtedd."

Roedd tua hanner yr ymatebwyr yn cytuno, pan roddir gwybod am gamgymeriadau, fod y sefydliad yn cymryd camau i sicrhau na fyddant yn digwydd eto. Roedd tua hanner y staff yn cytuno eu bod yn cael gwybod am gamgymeriadau a chamgymeriadau a fu bron â digwydd, ac roedd yr un nifer o'r staff yn dweud eu bod yn cael adborth am y newidiadau sy'n cael eu gwneud yn sgil y camgymeriadau y rhoddwyd gwybod amdanynt. Dywedodd un aelod o'r staff:

"Anaml iawn y byddwn yn cael adborth am y digwyddiadau rydyn ni'n rhoi gwybod amdanynt, heb sôn am y digwyddiadau y mae aelodau eraill o'r staff yn rhoi gwybod amdanynt."

O ystyried y sylwadau hyn gan y staff, mae angen i'r bwrdd iechyd ystyried y materion a godwyd yn y maes hwn.

Gwnaethom ystyried y gwaith archwilio sy'n cael ei wneud ar y ward, er mwyn sicrhau bod gweithgareddau hanfodol yn cael eu cyflawni. Er ei bod yn amlwg bod archwiliadau yn cael eu cynnal, ni allem fod yn sicr pa mor aml yr oedd hynny'n digwydd na pha mor gyson oeddent. Dangosir hyn gan ganfyddiadau yn gynharach yn yr adroddiad hwn, gan gynnwys y canlynol:

- Anghysondebau o ran gwiriadau dyddiol o dymheredd yr oergell lle roedd y feddyginiaeth yn cael ei storio
- Trefniadau ar gyfer diogelu gwybodaeth y cleifion
- Anghysondeb wrth gwblhau amserlenni glanhau
- Anghysondeb wrth gynnal archwiliadau rheoli haint.

Ni chawsom sicrwydd bod goruchwyliaeth ddigonol gan reolwyr y wardiau i fod yn hyderus bod proses gadarn ar waith ar gyfer gweithgareddau archwilio, er mwyn helpu i ddangos bod y gwasanaeth yn ddiogel ac yn effeithiol.

Yr hyn sydd angen ei wella

Mae'n rhaid i'r bwrdd iechyd wneud y canlynol:

- Ystyried diwylliant a dysgu mewn perthynas â digwyddiadau, gan gynnwys sicrhau bod y gwersi a ddysgwyd yn cael eu rhannu â'r staff mewn amgylchedd agored nad yw'n cosbi
- Sicrhau bod prosesau cadarn ar waith ar gyfer archwilio gweithgareddau'r wardiau, a bod hyn yn cael ei oruchwyllo'n ddigonol yn y bwrdd iechyd.

Staff ac adnoddau

Y Gweithlu

Dangosodd trafodaethau â'r uwch-reolwyr fod prinder staff nyrsio. Cawsom ein hysbysu bod prinder o 3.6 o nyrsys Band 5 cyfwerth ag amser llawn ar Ward M. Dywedwyd wrthym fod disgwyl i'r swyddi gael eu hysbysebu ar TRAC¹⁴ yn ystod mis Chwefror eleni, gyda'r staff yn dechrau yn eu swyddi ym mis Ebrill. Dywedodd yr uwch-reolwyr wrthym mai salwch oedd yn rhannol gyfrifol am y prinder staff, ynghyd â'r angen i lenwi swyddi staff y wardiau a oedd ar gyfnod mamolaeth. Dywedodd yr uwch-reolwyr eu bod yn dibynnu ar staff asiantaeth ac ewyllys da aelodau presennol o'r staff a oedd yn gweithio sifftiau ychwanegol i reoli lefelau staffio ar y ward. Soniwyd bod staff nyrsio yn gweithio ar draws y ddwy ward a'r uned asesu bediatrig a byddai'r staff yn cael cais i symud yn ôl yr angen er mwyn sicrhau nad oedd unrhyw achosion o brinder staff ar y wardiau. Soniwyd hefyd y byddai'r ward llawdriniaeth llosgiadau/plastig bediatrig yn cau weithiau ac y byddai'r cleifion yn cael eu symud, gan alluogi'r staff i gyflenwi ar gyfer unrhyw achosion o brinder staff ar Ward Oakwood neu Ward M.

Dywedodd y staff y gwnaethom siarad â nhw, a'r rhai a gwblhaodd holiaduron, fod y wardiau yn brin o staff yn rheolaidd. Dywedodd y staff wrthym nad oeddent yn teimlo eu bod yn cael eu cefnogi weithiau yn ystod sifftiau nos a sifftiau penwythnos oherwydd nad oedd digon o nyrsys gradd uwch ar ddyletswydd. Dywedwyd wrthym hefyd mai staff llai profiadol oedd yn gweithio sifftiau nos a sifftiau penwythnos yn aml.

Gwnaethom siarad ag uwch-reolwyr a ddywedodd fod ymdrechion yn cael eu gwneud i sicrhau bod uwch-aelod o staff ychwanegol ar ddyletswydd ar y penwythnosau, ond nad oedd hynny'n bosibl bob amser. Gwnaethant ychwanegu bod modd cysylltu â'r fetron a'r pennaeth nyrsio dros y ffôn unrhyw bryd ar benwythnosau os oedd angen, a bod y staff yn eu ffonio i gael cyngor yn ôl y gofyn.

Nododd tua hanner y staff a gwblhaodd holiaduron mai dim ond weithiau yr oedd digon o staff ar gael i'w galluogi i wneud eu gwaith yn iawn. Ymhlith rhai o'r sylwadau a gafwyd gan y staff roedd:

¹⁴ System recriwtio'r GIG

"Mae materion staffio yn hollbwysig. Prin iawn yw'r adborth a roddir wrth ymgymryd ag aciwtedd dyddiol - dim ond os gofynnir amdano - rydym yn ymwybodol bod prinder staff, caiff negeseuon cymysg eu rhoi ynghylch faint o weithwyr cyfwerth ag amser cyflawn rydym yn brin ohonynt. Does dim atebion clir ynghylch pryd y caiff hyn ei ddatrys/unioni drwy hysbysebu am swyddi."

"Mae lefelau staffio yn heriol iawn, ac mae hynny wedi bod yn wir ers cryn amser."

Gwelsom fod aciwtedd dyddiol yn cael ei gofnodi a'i fonitro'n rheolaidd gan ddefnyddio adnodd Aciwtedd Cymru Gyfan i sicrhau bod lefelau staffio a lleoliad staff ar y wardiau yn cael eu monitro ac i asesu arsylwadau amlach ac anghenion dibyniaeth y cleifion. Wrth edrych ar rotâu'r staff gwelsom, oherwydd nifer o swyddi gwag, fod rheolwr y ward yn gweithio sifftiau rheolaidd mewn capasiti clinigol. Roedd hyn yn golygu nad oedd yn gallu cyflawni ei rôl ychwanegol o ddarparu arweinyddiaeth glinigol i staff y ward. Dywedodd yr uwch-reolwr wrthym, unwaith y caiff y swyddi gwag eu llenwi, y bydd rheolwr y ward yn ailafael yn y swydd ychwanegol honno. Bydd hyn yn unol â'r Egwyddorion Staffio Interim ar gyfer Nyrsys Cleifion Mewnol Pediatreg (Cymru)¹⁵ sy'n nodi y bydd rheolwr y ward yn aelod o staff ychwanegol.

Rydym yn cydnabod bod ymdrechion yn mynd rhagddynt i lenwi swyddi gwag. Fodd bynnag, yn sgil y pryderon a fynegwyd gan rai aelodau o'r staff ynghylch lefelau staffio a'r galw ar i reolwr y ward weithio mewn capasiti clinigol, argymhellwn y dylai'r uwch-reolwyr ailedrych ar y rotâu staffio. Bydd hyn yn sicrhau bod y lefelau staffio'n briodol i ddarparu gofal diogel ac amserol.

Gwelodd y tîm arolygu hefyd nad oedd y cyfleusterau i'r staff ar y ddwy ward o safon uchel. Roedd hyn yn cynnwys yr ystafell staff, y toiledau a'r ystafell cyfnewid sifftiau. Er i'r tîm arolygu nodi bod lefelau staffio isel a'r amgylchedd

¹⁵ Cyfres o egwyddorion arweiniol interim sy'n cefnogi'r broses o gynllunio lefelau staffio nyrsys mewn gwasanaethau cleifion mewnol pediatrig a roddwyd gan y Prif Swyddog Nyrsio/Cyfarwyddwr Nyrsio GIG Cymru i bob Bwrdd Iechyd yng Nghymru ym mis Mehefin 2019. Ni ddisgwylir i Fyrdau Iechyd gydymffurfio'n llawn ar unwaith, ond dylent weithio tuag at gyflawni'r egwyddorion.

gwael yn cael effaith negyddol ar forâl y staff, roedd yn galonogol canfod nad oedd hyn wedi cael effaith negyddol ar brofiad y cleifion ar y wardiau yr ymwelwyd â nhw. Roedd hyn yn dangos ymrwymiad a phroffesiynoldeb y staff tuag at y cleifion a'u teuluoedd, eu rôl, a'r bwrdd iechyd.

Gwelsom fod y staff ar y ddwy ward yn gydlynol a bod ganddynt gydberthynas dda â rheolwyr y ward. Roedd hyn yn dangos bod y tîm yn cydweithio'n dda ac yn cefnogi'r gwaith o ddarparu gofal diogel ac effeithiol. Cawsom adborth cadarnhaol o'r holiaduron staff hefyd ynghylch gwaith tîm. Dywedodd y rhan fwyaf o'r ymatebwyr fod eu rheolwr bob amser neu fel arfer yn eu hannog i weithio fel tîm. Ymhlith rhai o'r sylwadau a gafwyd gan y staff roedd:

"Rheolwr gwych. Mae'n hawdd iawn mynd ati. Mae wedi bod yn gefnogol iawn o'm datblygiad fel nyrs sydd newydd gymhwyso. Rwy'n teimlo'n hapus iawn yn fy ngweithle"

"Rheolwr cefnogol iawn ac mae ei drws ar agor bob amser"

"Fy rheolwr llinell uniongyrchol yw'r rheswm pam rwy'n aros yn fy swydd. Hi a'r fetron".

Dywedodd tua hanner y staff a gwblhaodd holiaduron fod y cyfathrebu rhwng yr uwch-reolwyr a'r staff bob amser neu fel arfer yn effeithiol. Dywedodd yr un nifer o staff fod yr uwch-reolwyr yn cynnwys y staff mewn penderfyniadau weithiau. Dywedodd traean o'r ymatebwyr fod y rheolwyr bob amser neu fel arfer yn gweithredu ar adborth y staff, a dywedodd tua thraean ohonynt nad oeddent byth yn gwneud hynny. Yn seiliedig ar drafodaethau â staff y wardiau, a'r adborth o'r holiaduron staff, mae angen gwella'r cyfathrebu rhwng yr uwch-reolwyr a staff y wardiau.

Gwnaethom siarad â'r nyrs datblygu ymarfer a oedd yn frwdfrydig ac yn wybodus o ran ei rôl a gofynion hyfforddi'r staff. Gwelsom fod amrywiaeth eang o gymorth addysgol ar gael ar gyfer y staff cofrestredig a'r staff anghofrestredig ac roedd ymrwymiad clir o ran sicrhau diogelwch y wardiau a chymhwysedd y staff sy'n darparu gofal.

Gwelsom fod pob aelod newydd o'r staff, boed yn aelod cofrestredig neu anghofrestredig, yn cael pecyn sefydlu unigol. Mae'r pecyn hwn yn cynnwys portffolio o gymwyseddau, y cyfleoedd datblygu sydd ar gael ac esboniad o broses arfarnu'r bwrdd iechyd. Mae'r staff yn cael dogfen basbort hyfforddiant sy'n nodi'r hyfforddiant gorfodol y mae'n ofynnol iddynt ei gwblhau. Mae'r gwasanaeth yn cynnal diwrnod hyfforddiant gorfodol a statudol blynyddol a diwrnod sgiliau pediatriig sy'n ymdrin â rheoli meddyginiaeth a rhoi cyffuriau yn fewnwythiennol.

Hefyd, gwelsom ei bod yn ofynnol i'r staff gwblhau cyrsiau e-ddysgu gorfodol a oedd yn cynnwys rheoli heintiau a diogelu. Gallai'r staff hefyd ddefnyddio adnoddau e-ddysgu ychwanegol sy'n berthnasol i'w rôl, a oedd yn cynnwys hyfforddiant bwydo ar y fron. Gwelsom hefyd fod angen i'r staff gwblhau llyfryn cymhwysedd a chynnal portffolio o dystiolaeth.

Edrychwyd ar gydymffurfiaeth y staff â hyfforddiant statudol a gorfodol a nodwyd anghysondebau o ran cydymffurfiaeth ar gyfer y staff ar y ddwy ward. Cawsom sicrwydd bod lefel uchel o gydymffurfiaeth â hyfforddiant e-ddysgu. Fodd bynnag, nodwyd gennym fod canran y staff a oedd wedi mynychu diwrnod sgiliau hyd at fis Ionawr 2020 yn isel.

Dywedodd y rhan fwyaf o'r staff a gwblhaodd holiadur fod yr hyfforddiant neu'r dysgu a datblygu bob amser neu fel arfer yn eu helpu i wneud eu gwaith yn fwy effeithiol, a dywedodd y rhan fwyaf ohonynt ei fod yn eu helpu i gael y wybodaeth ddiweddaraf am ofynion proffesiynol. Dywedodd y rhan fwyaf o'r staff ei fod bob amser neu fel arfer yn eu helpu i roi profiad gwell i'r cleifion a'r defnyddwyr gwasanaeth.

Datgelodd trafodaethau â'r rheolwyr fod system sefydledig ar waith ar gyfer cwblhau arfarniadau ac adolygiadau datblygu personol (PADR). Roedd hynny'n golygu bod system ffurfiol ar waith ar gyfer ystyried a oedd hyfforddiant blaenorol wedi bod yn effeithiol. Roedd arfarniadau hefyd yn cael eu hystyried yn fforwm defnyddiol ar gyfer nodi anghenion hyfforddi'r staff yn y dyfodol. Roedd y ffigurau a gyflwynwyd yn dangos mai dim ond 56% o'r staff ar Ward M a 50% o'r staff ar Ward Oakwood oedd wedi cael PADR rhwng mis Ebrill a mis Rhagfyr 2019. Efallai bod modd priodoli'r ffigurau hyn i lefelau staffio isel a diffyg amser i'r rheolwyr gwblhau arfarniadau'r staff.

Dywedodd y rhan fwyaf o'r staff a gwblhaodd holiadur eu bod wedi cael arfarniad, adolygiad blynyddol neu adolygiad datblygu o'u gwaith yn ystod y 12 mis diwethaf. Dywedodd y rhan fwyaf ohonynt fod eu hanghenion dysgu neu ddatblygu wedi cael eu nodi, a nododd y mwyafrif ohonynt fod eu rheolwr yn cefnogi ceisiadau i ymgymryd â hyfforddiant arbenigol neu ychwanegol. Awgrymodd y staff hyfforddiant a fyddai'n ddefnyddiol iddynt hefyd, gan gynnwys Makaton ac iaith arwyddion, oncoleg, trais ac ymddygiad ymosodol, a mewnosod cathetr.

Gwnaethom siarad â'r rheolwyr a gadarnhaodd fod y staff yn cael eu rhyddhau i ymgymryd â hyfforddiant mor aml â phosibl. Fodd bynnag, cawsom wybod nad yw hyn bob amser yn bosibl gan fod angen i'r staff gyflenwi sifftiau. O'r herwydd, caiff yr hyfforddiant ei ohirio a'i aildrefnu ar

gyfer dyddiad arall. Yn benodol, dywedodd y rheolwyr wrthym fod problemau parhaus wrth ryddhau'r staff i fynychu hyfforddiant Cynnal Bywyd Brys Pediatrig (PILS) a hyfforddiant Cymorth Bywyd Pediatrig Brys (EPLS). Roedd y ffigurau cydymffurfiaeth cyffredinol ar gyfer y ddwy ward yn cadarnhau hyn. Fodd bynnag, cadarnhaodd y rheolwyr fod un aelod o staff sydd wedi cael hyfforddiant EPLS ar ddyletswydd bob amser ar y wardiau pediatrig ar unrhyw adeg. Mae'r Egwyddorion Staffio ar gyfer Nyrsys Cleifion Mewnol Pediatreg yn cynghori y dylai o leiaf un nyrs fesul sifft ym mhob ardal glinigol (ward/adran) fod wedi cael hyfforddiant APLS/EPLS. Dywedodd yr uwch-reolwyr wrthym fod y gwasanaeth yn gweithio tuag at gyflawni hyn. Dywedwyd wrthym hefyd fod hyfforddiant ar ddadebru pediatrig yn cael ei roi i nyrsys cofrestredig fel rhan o'r diwrnod sgiliau, a bod diwrnod astudio 'plentyn â salwch aciwt' yn cael ei gynnal hefyd.

Gwnaethom ystyried lles y staff a ph'un a oeddent yn gallu cael gafael ar iechyd galwedigaethol pe bai angen. Dywedodd y rhan fwyaf o'r staff a gwblhaodd holiaduron wrthym eu bod yn ymwybodol o'r cymorth iechyd galwedigaethol sydd ar gael yn y bwrdd iechyd a sut y gellir cael gafael arno. Fodd bynnag, dywedodd y staff y gwnaethom siarad â nhw fod amser aros annerbyniol ar gyfer cael apwyntiad. Yn ei holiadur, nododd un aelod o'r staff:

"Er fy mod yn ymwybodol o iechyd galwedigaethol, mae'n anodd iawn cael apwyntiad."

Yr hyn sydd angen ei wella

Mae'n rhaid i'r bwrdd iechyd sicrhau'r canlynol:

- Bod y rotâu staffio'n cael eu hadolygu er mwyn sicrhau bod y lefelau staffio'n ddiogel ac yn effeithiol i ddiwallu anghenion y gwasanaeth
- Bod adolygiad yn cael ei gynnal o ddigonolrwydd y sianelau cyfathrebu rhwng yr uwch-reolwyr a'r staff er mwyn sicrhau cyfathrebu effeithiol
- Bod y staff yn cael cyfleoedd i gwblhau hyfforddiant gorfodol a mynychu hyfforddiant PILS ac EPALS
- Mae'n rhaid i'r bwrdd iechyd sicrhau bod pob aelod o staff yn cael arfarniadau blynyddol amserol

- Bod ystyriaeth yn cael ei rhoi i lesiant y staff a pha mor hawdd ydyw i gael gafael ar gymorth iechyd galwedigaethol pan fo angen.

4. Beth nesaf?

Lle rydym wedi nodi gwelliannau a phryderon uniongyrchol yn ystod ein harolygiad y mae gofyn i'r gwasanaeth weithredu yn eu cylch, nodir y rhain yn y ffyrdd canlynol o fewn atodiadau'r adroddiad hwn (lle y bônt yn gymwys):

- Atodiad A: Yn cynnwys crynodeb o unrhyw bryderon am ddiogelwch cleifion a gafodd eu huwchgwyfeirio a'u datrys yn ystod yr arolygiad
- Atodiad B: Yn cynnwys unrhyw bryderon uniongyrchol am ddiogelwch cleifion lle rydym yn mynnu bod y gwasanaeth yn cwblhau cynllun gwella uniongyrchol gan ddweud wrthym am y camau brys y mae'n eu cymryd
- Atodiad C: Yn cynnwys unrhyw welliannau eraill a nodwyd yn ystod yr arolygiad lle rydym yn mynnu bod y gwasanaeth yn cwblhau cynllun gwella gan ddweud wrthym am y camau mae'n eu cymryd i fynd i'r afael â'r meysydd hyn

Dylai'r cynlluniau gwella wneud y canlynol:

- Nodi'n glir pryd a sut yr eir i'r afael â'r canfyddiadau a nodwyd, gan gynnwys amserlenni
- Sicrhau bod y camau a gymerir mewn ymateb i'r materion a nodwyd yn benodol, yn fesuradwy, yn gyflawnadwy, yn realistig ac wedi'u hamseru
- Cynnwys digon o fanylion er mwyn rhoi sicrwydd i AGIC a'r cyhoedd yr eir i'r afael â'r canfyddiadau a nodwyd yn ddigonol.

O ganlyniad i ganfyddiadau'r arolygiad hwn, dylai'r gwasanaeth wneud y canlynol:

- Sicrhau nad yw'r canfyddiadau yn systemig ar draws rhannau eraill o'r sefydliad ehangach
- Rhoi'r wybodaeth ddiweddaraf i AGIC pan fydd camau yn dal i fod heb eu cymryd a/neu ar y gweill, er mwyn cadarnhau pan fyddant wedi cael eu cwblhau.

Caiff y cynllun gwella, ar ôl cytuno arno, ei gyhoeddi ar wefan AGIC.

5. Sut rydym yn arolygu ysbytai

Gallwn ddefnyddio amrywiaeth o ddulliau gweithredu wrth arolygu ysbytai'r GIG, gan gynnwys:

- Arolygiad dwys o un ward: cynhaliwn arolygiad trylwyr a manwl o un ward
- Arolygiad o sawl ward: ymwelwn â nifer o wardiau ac adrannau yn yr un ysbyty er mwyn nodi materion neu themâu a all fod yn gymwys i'r ysbyty cyfan
- Arolygiad o sawl ysbyty: ymwelwn â nifer o ysbytai yn yr un bwrdd iechyd er mwyn asesu'r broses o lywodraethu a chyflenwi gwasanaethau cyfan.

Fel arfer, ni roddir rhybudd pan arolygir ysbytai. Byddwn bob amser yn ceisio cynnal arolygiadau dirybudd am fod hyn yn ein galluogi i weld gwasanaethau fel maent yn gweithredu fel arfer. Nid yw'r gwasanaeth yn cael unrhyw rybudd ymlaen llaw o arolygiad dirybudd.

Rhoddir adborth i gynrychiolwyr gwasanaethau ar ddiwedd yr arolygiad, mewn ffordd sy'n cefnogi dysgu, datblygiad a gwelliant ar lefel weithredol a strategol.

Rydym yn edrych ar y ffordd y mae ysbytai yn bodloni [Safonau Iechyd a Gofal 2015](#). Rydym yn ystyried safonau a chanllawiau proffesiynol eraill fel y bo'n gymwys.

Mae'r arolygiadau hyn yn rhoi cipolwg ar y safonau gofal o fewn ysbytai.

Ceir manylion pellach am [sut mae AGIC yn arolygu'r GIG](#) ar ein gwefan.

Atodiad A – Crynodeb o'r pryderon a gafodd eu datrys yn ystod yr arolygiad

Mae'r tabl isod yn crynhoi'r pryderon a nodwyd ac a gafodd eu huwchgyfeirio yn ystod ein harolygiad. Oherwydd yr effaith/effaith bosibl ar ofal a thriniaeth cleifion, roedd angen rhoi sylw i'r pryderon hyn ar unwaith, yn ystod yr arolygiad.

Pryderon uniongyrchol a nodwyd	Effaith/effaith bosibl ar ofal a thriniaeth y cleifion	Sut y cafodd y pryder ei uwchgyfeirio gan AGIC	Sut y cafodd y pryder ei ddatrys
Ni nodwyd unrhyw bryderon uniongyrchol yn ystod yr arolygiad hwn			

Atodiad B – Cynllun gwella uniongyrchol

Ysbyty: Ysbyty Treforys

Ward/adran: Ward Oakwood a Ward M

Dyddiad arolygu: 21 a 22 Ionawr 2020

Mae'r tabl isod yn cynnwys unrhyw bryderon uniongyrchol am ddiogelwch cleifion a nodwyd yn ystod yr arolygiad lle rydym yn mynnu bod y gwasanaeth yn cwblhau cynllun gwella ar unwaith yn dweud wrthym am y camau brys y mae'n eu cymryd.

Yr hyn sydd angen ei wella ar unwaith	Safon	Cam gweithredu'r gwasanaeth	Swyddog cyfrifol	Amserlen
<p>Mae'n ofynnol i'r bwrdd iechyd ddarparu manylion i AGIC am y camau y bydd yn eu cymryd er mwyn sicrhau'r canlynol:</p> <p>Sicrhau bod meddyginiaethau'n cael eu storio ar dymheredd priodol a bod archwiliadau rheolaidd o dymheredd yr oergell feddyginiaeth yn cael eu cynnal yn unol â pholisi'r bwrdd iechyd.</p>	<p>2.1 Rheoli Risg a Hybu Iechyd a Diogelwch</p> <p>2.6 Rheoli Meddyginiaethau</p>	<p>Caiff pob aelod o'r staff nyrsio ei atgoffa o'r polisi ar wirio tymheredd yr oergell feddyginiaeth.</p> <p>Caiff rhestr wirio ddyddiol ar gyfer staff y wardiau ei diwygio a'i rhannu â'r tîm nyrsio.</p> <p>Hefyd, y Fetron i ddefnyddio'r rhestr gwirio ansawdd newydd, sy'n cynnwys gwirio'r oergell gyffuriau, yn wythnosol.</p> <p>Mae'r ardal bellach yn cydymffurfio â pholisi rheoli meddyginiaeth Bae Abertawe. Hysbysiad Diogelwch</p>	<p>Pennaeth Nyrsio Metron</p> <p>Prif Nyrsys y Ward</p> <p>Pob un o'r Staff Nyrsio cofrestredig</p>	<p>Cwblhawyd</p>

Yr hyn sydd angen ei wella ar unwaith	Safon	Cam gweithredu'r gwasanaeth	Swyddog cyfrifol	Amserlen
		<p>Cleifion 5.2.6 Tudalen 40/Mai 2019.</p> <p>Rhannu adolygiadau sicrwydd y wardiau yng nghyfarfodydd Uned Cyflenwi Gwasanaethau Singleton, dysgu a sicrwydd, y prif nyrsys a'r arweinwyr.</p> <p>Rhoi gwybod i'r Grŵp Llywodraethu Ansawdd a Diogelwch am y cynllun gwella uniongyrchol hwn er mwyn rhannu'r dysgu ym mhob rhan o'r Bwrdd Iechyd.</p>		
<p>Mae'n ofynnol i'r bwrdd iechyd ddarparu manylion i AGIC am y camau y bydd yn eu cymryd er mwyn sicrhau'r canlynol: Bod systemau priodol ar waith i gynnal diogelwch a chyfrinachedd gwybodaeth y cleifion bob amser, er mwyn atal mynediad anawdurdodedig.</p>	3.5 Cadw Cofnodion	<p>Caiff pob aelod o'r staff ei atgoffa am y polisi Llywodraethu Gwybodaeth.</p> <p>Cysylltwyd ag arweinydd Llywodraethu Gwybodaeth y Bwrdd Iechyd a fydd yn cynnal archwiliad gwirio.</p> <p>Caiff cydymffurfiaeth â hyfforddiant gorfodol ac e-ddysgu ei wirio ym mhob ardal. Caiff pob</p>	<p>Arweinydd Clinigol Pediateg Acíwt Pediategydd Ymgynghorol Pennaeth Nyrsio Metron Prif Nyrsys y Ward</p>	<p>Cwblhawyd Archwiliad Gwirio wedi'i gynllunio ar y cyd ag Arweinydd Llywodraethu Gwybodaeth y Bwrdd Iechyd</p>

Yr hyn sydd angen ei wella ar unwaith	Safon	Cam gweithredu'r gwasanaeth	Swyddog cyfrifol	Amserlen
		<p>aelod o'r staff nad yw'n cydymffurfio â hyfforddiant llywodraethu gwybodaeth ei hyfforddi o fewn y pedair wythnos nesaf</p> <p>Arweinydd Llywodraethu'r Bwrdd lechyd i gynnal archwiliad ar 5 a 12 Chwefror 2020 sy'n cynnwys nifer o adrannau:</p> <ul style="list-style-type: none"> • Cyfweiliad â'r Pennaeth Adran / Rheolwr. • Archwiliad arsylwadol o'r ardal / ward. • Cyfweiliadau â 2 aelod o'r staff. <p>Symudwyd y troli nodiadau o Ward M ar 22 Ionawr 2020 ac erbyn hyn mae wedi'i roi mewn ystafell â chlo bysellbad. Mae gan y troli gaead y gellir ei gloi hefyd. Er mwyn darparu ar gyfer y troli nodiadau, caiff yr ystafell driniaeth ar Ward M ei had-drefnu.</p>	<p>Pob aelod cofrestredig o'r Staff Nyrsio a'r Staff Meddygol</p>	

Yr hyn sydd angen ei wella ar unwaith	Safon	Cam gweithredu'r gwasanaeth	Swyddog cyfrifol	Amserlen
		<p>Mae'r tîm llawfeddygol wedi cael gwybod am y newid mewn ymarfer sydd hefyd wedi'i ychwanegu at agenda'r Pwyllgor Llawdriniaeth Bediatrig er mwyn rhoi adborth ar y newid hwnnw a chanfyddiadau ymweliad AGIC</p> <p>Mae Ward M bellach yn cydymffurfio â pholisi Bwrdd Iechyd Bae Abertawe ar safonau i gynnal diogelwch cofnodion iechyd</p> <p>Rhannu adolygiadau sicrwydd y wardiau a'r holl archwiliadau lleol yng nghyfarfodydd fforwm dysgu a sicrwydd, prif nyrsys, arweinwyr a risg leol.</p> <p>Rhoi gwybod i'r Grŵp Llywodraethu Ansawdd a Diogelwch am y cynllun gwella uniongyrchol hwn er mwyn rhannu'r dysgu ym mhob rhan o'r Bwrdd Iechyd.</p>		

Rhaid i'r adran ganlynol gael ei chwblhau gan gynrychiolydd y gwasanaeth sy'n bennaf cyfrifol ac atebol am sicrhau y caiff y cynllun gwella ei roi ar waith.

Cynrychiolydd y gwasanaeth: Eirlys Thomas

Enw (priflythrennau): Eirlys Thomas

Swydd: Pennaeth Nyrsio, Gwasanaethau Plant

Dyddiad: 30 Ionawr 2020

Atodiad C – Cynllun gwella

Ysbyty: Ysbyty Treforys

Ward/adran: Ward Oakwood a Ward M

Dyddiad arolygu: 21 a 22 Ionawr 2020

Mae'r tabl isod yn cynnwys unrhyw welliannau eraill a nodwyd yn ystod yr arolygiad lle rydym yn gofyn i'r gwasanaeth gwblhau cynllun gwella sy'n nodi'r camau gweithredu y mae'n eu cymryd i fynd i'r afael â'r meysydd hyn.

Yr hyn sydd angen ei wella	Safon	Cam gweithredu'r gwasanaeth	Swyddog cyfrifol	Amserlen
Ansawdd profiad y claf				
Mae'n rhaid i'r bwrdd iechyd sicrhau bod gwybodaeth hybu iechyd gyfredol ar gael i gleifion o bob oedran.	1.1 Hybu, diogelu a gwella iechyd	Arddangosiadau hybu iechyd ym mhob rhan o'r gwasanaeth gofal aciwt. Gwasanaethau plant yn cymryd rhan yn yr ymgyrch gwenu a'r staff chwarae yn trefnu arddangosiadau tymhorol ar fod yn ddiogel yn yr haul. Mae Bae Abertawe wedi gweithio gydag RCPCH i ddatblygu llyfryn 'How to Adult' sy'n hybu iechyd a lles ymhlith pobl ifanc sy'n mynd i'r coleg/prifysgol drwy ddangos sut mae aros yn iach. Mae gwybodaeth sy'n rhoi cyngor a chymorth ar gael ar y wardiau	Metron/Pennaeth Nyrsio/Staff Chwarae	Parhaus

Yr hyn sydd angen ei wella	Safon	Cam gweithredu'r gwasanaeth	Swyddog cyfrifol	Amserlen
<p>Mae'n rhaid i'r bwrdd iechyd wneud y canlynol:</p> <ul style="list-style-type: none"> • Ystyried sut y gellir cynnal preifatrwydd y cleifion os bydd y staff yn cael sgysiau yn y cilfannau â mwy nag un gwely • Ystyried sut y gellir cynnal urddas y rhieni/gofalwyr sy'n aros dros nos yn y cilfannau â mwy nag un gwely • Ystyried sut y gellir cynnal preifatrwydd ac urddas y cleifion a'u rhieni/gofalwyr os bydd angen i'r staff gael sgysiau sensitif â nhw • Ystyried sut y gellir rhoi mwy o breifatrwydd ac urddas i blant hŷn a phobl ifanc yn eu harddegau • Ystyried cynllun y wardiau a mynediad i gyfleusterau rhieni er mwyn cynnal preifatrwydd y cleifion. 	<p>4.1 Gofal ag Urddas</p>	<p>Ystafell dawel yn cael ei datblygu ar gyfer cleifion a theuluoedd er mwyn cefnogi preifatrwydd o fewn pediatreg. Trafodaeth ynghylch defnyddio clustffonau ar wardiau â grwpiau o rieni a staff</p> <ul style="list-style-type: none"> • Mae hyn yn anodd oherwydd cynllun y wardiau. Caiff hyn ei ystyried ar y cyd â'r cynlluniau ailddatblygu ar gyfer templedi'r wardiau. Rhagwelir y bydd mwy o le rhwng y gwelyau ac y bydd lle i'r rhieni. Mae cynlluniau i ddarparu mwy o giwbiclau. Caiff y staff eu hannog i gael sgysiau sensitif i ffwrdd oddi wrth gilfannau'r wardiau • Fel rhan o'r broses o ailddatblygu'r ardal glinigol, bydd cyfleusterau yn cael eu darparu ar gyfer pobl ifanc. Mae'r holl staff nyrsio yn dyrannu gwelyau yn ôl oedran y plentyn • Mae cynllun y wardiau yn flaenoriaeth ar gyfer gwasanaethau plant. 	<p>Staff y ward/Metron, y Pennaeth Nyrsio a'r Arweinydd Clinigol Meddygol</p> <p>Cyfarwyddwr Cynllunio'r Bwrdd Iechyd ac Uned Cyflenwi Gwasanaethau Singleton, tîm rheoli gwasanaethau plant</p>	<p>Awst 2020</p> <p>Ebrill 2021</p>

Yr hyn sydd angen ei wella	Safon	Cam gweithredu'r gwasanaeth	Swyddog cyfrifol	Amserlen
		<ul style="list-style-type: none"> Mae trafodaethau eisoes yn mynd rhagddynt ym mhob rhan o'r bwrdd iechyd ac maent yn flaenoriaeth o ran Cynllun Tymor Canolig Integredig gwasanaethau plant. Arfarniad o'r opsiynau wedi'i gwblhau 		
Mae'n rhaid i'r bwrdd iechyd sicrhau bod yr arwyddion ar y wardiau yn cael eu hadolygu er mwyn sicrhau ei bod yn hawdd i'r cleifion a'u gofalwyr/teuluoedd ddod o hyd i'r cyfleusterau.	4.2 Gwybodaeth i Gleifion	<p>Fforwm ieuencid Bae Abertawe i gynnal adolygiad 15 cam a rhoi cyngor ar arwyddion.</p> <p>Caiff hyn ei gynnwys yn y rhaglen ailddatblygu. Fodd bynnag, gweithredir ar unrhyw gyngor a roddir gan y fforwm ieuencid yn uniongyrchol</p>	Pennaeth Nyrsio, Nyrs Glinigol Arbenigol Profiad Cleifion, Ieuencid Bae Abertawe	Tachwedd 2020
Mae'n rhaid i'r bwrdd iechyd ystyried y trefniadau ar gyfer cynllunio i ryddhau cleifion er mwyn sicrhau y cânt eu rhyddhau'n amserol.	5.1 Mynediad amserol	Mae angen mynd i'r afael ag anghenion cynllunio i ryddhau cleifion sydd wedi cael llawdriniaeth. Ar hyn o bryd, mae proses ryddhau a arweinir gan nyrsys ar gyfer rhai cleifion. Bydd angen i hyn gael ei drafod yn y pwyllgor llawfeddygol cyn ei ehangu i arbenigeddau eraill	Metron, Prif Nyrs y ward lawfeddygol a Llawfeddygon, Addysgwyr ymarfer	Awst 2020

Darparu gofal diogel ac effeithiol

Yr hyn sydd angen ei wella	Safon	Cam gweithredu'r gwasanaeth	Swyddog cyfrifol	Amserlen
<p>Mae'n rhaid i'r bwrdd iechyd sicrhau'r canlynol:</p> <ul style="list-style-type: none"> • Ei fod yn parhau i nodi, monitro a gweithredu ar unrhyw risgiau a nodir o ganlyniad i'r amgylchedd er mwyn sicrhau bod iechyd, diogelwch a lles y cleifion yn cael eu hyrwyddo a'u diogelu • Bod y polisi ar gyfer hyrwyddo diogelwch babanod a'u hatal rhag cael eu herwyddio yn cael ei adolygu • Bod camau yn cael eu cymryd i sicrhau bod modd clywed y gloch argyfwng ar Ward M ar Ward Oakwood • Ei bod yn hawdd cael gafael ar fagiâu ailanadlu ym mhob cilfan • Bod yr holl gyfarpar a chyflenwadau glanhau'n cael eu storio'n briodol ac yn ddiogel. 	<p>2.1 Rheoli risg a hybu iechyd a diogelwch</p>	<p>Archwiliadau ansawdd a diogelwch yn cael eu cynnal gan y Fetron</p> <p>Pob mater sy'n gysylltiedig â'r amgylchedd yn cael ei gofnodi ar DATIX. Yr amgylchedd yn cael ei nodi ar gofrestr risg gwasanaethau plant a chofrestr risg y Bwrdd Iechyd. Uwchgyfeirio unrhyw faterion at grŵp ansawdd a diogelwch Uned Cyflenwi Gwasanaethau Singleton. Y gofrestr risg yn cael ei hadolygu gan y tîm amlddisgyblaethol yn chwarterol.</p> <p>Mae gan y Bwrdd Iechyd bolisi herwyddio plant. Rhannwyd y polisi hwn yn ystod yr ymweliad. Bydd angen iddo gael ei adolygu eleni</p> <p>Mae'r gloch argyfwng ym mhob rhan o'r templed pediatrig wedi'i hystyried ac mae camau wedi'u cymryd er mwyn sicrhau y gellir ei chlywed ar draws y llawr yn ystod argyfwng. Nid yw'r gwaith wedi'i gwblhau eto. Aros am gadarnhad o'r gost</p>	<p>Pennaeth Nyrsio Metron gwasanaethau plant Treforys</p> <p>Pennaeth Nyrsio/Metron gwasanaethau plant</p> <p>Metron gwasanaethau plant</p>	<p>Parhaus</p> <p>Rhagfyr 2020</p> <p>Mai 2020</p>

Yr hyn sydd angen ei wella	Safon	Cam gweithredu'r gwasanaeth	Swyddog cyfrifol	Amserlen
		<p>Mae bagiau ailanadlu ar gael wrth ymyl bob gwely erbyn hyn. Mae'r Fetron wedi cynnal gwiriadau wythnosol er mwyn sicrhau cydymffurfiaeth</p> <p>Gweithredwyd gan y gwasanaethau domestig. Mae clo wedi'i roi ar y cwpwrdd glanhau.</p> <p>Caiff cloeon eu gosod ar ddrysau'r ystafelloedd eitemau budr ar Ward Oakwood a Ward M</p>	<p>Metron gwasanaethau plant</p> <p>Metron gwasanaethau plant</p>	<p>Cwblhawyd Chwefror 2020</p> <p>Ebrill 2020</p>
<p>Mae'n rhaid i'r bwrdd iechyd sicrhau'r canlynol:</p> <ul style="list-style-type: none"> Bod amserlenni glanhau'n cael eu cwblhau'n gyson Bod cadeiriau newydd yn cael eu gosod yn lle'r rhai sydd wedi'u difrodi ar y ddwy ward Dylai archwiliadau rheoli heintiau gael eu cwblhau'n gyson, yn unol â'r polisi a'r canlyniadau a ddangosir ar y wardiau lle bynnag y bo'n bosibl. 	<p>2.4 Atal a Rheoli Heintiau a Dihalogi</p>	<p>Amserlenni glanhau domestig yn cael eu hadolygu ar y cyd â'r gwasanaethau domestig ym mhob rhan o'r adran bediatrig. Amserlen glanhau cyfarpar ar waith ar gyfer staff nyrsio. Caiff yr amserlen hon ei gwirio gan y Fetron a'r Prif Nyrsys fel rhan o restrau gwirio sicrhau ansawdd</p> <p>Archwiliadau sicrhau ansawdd rheoli heintiau yn cael eu cynnal gan y Fetron bob pythefnos, archwiliadau rheoli heintiau misol yn cael eu cynnal gan y</p>	<p>Pennaeth Nyrsio / Metron</p> <p>Prif Nyrsys y Ward / Metron</p>	<p>Mawrth 2020</p> <p>Wedi'i gwblhau ac yn parhau</p>

Yr hyn sydd angen ei wella	Safon	Cam gweithredu'r gwasanaeth	Swyddog cyfrifol	Amserlen
		wardiau. Canlyniadau yn cael eu harddangos wrth y fynedfa i'r ward, fel y gwelwyd yn ystod yr ymweliad. Rhannwyd copïau papur o'r holl archwiliadau ar adeg yr ymweliad		
Mae'n rhaid i'r bwrdd iechyd sicrhau bod unrhyw feddyginiaeth yn cael ei rhoi i gleifion yn unol â'r polisi rheoli meddyginiaeth.	2.6 Rheoli Meddyginiaethau	Arsylwyd ar y broses o reoli meddyginiaeth ar adeg yr ymweliad. Nodwyd bod tystiolaeth o arfer da ym maes rheoli meddyginiaeth. Fodd bynnag, roedd anghysondebau o ran y gwiriadau dyddiol o dymheredd yr oergell ar Ward M. Gwnaethpwyd hyn ar y pryd a chafodd ei gynnwys yn ein hadnodd archwilio ansawdd. Mae siart wirio wedi'i chyflwyno hefyd.	Pennaeth Nyrsio / Metron	Cwblhawyd. Ionawr 2020
<p>Mae'n rhaid i'r bwrdd iechyd sicrhau'r canlynol:</p> <ul style="list-style-type: none"> Bod yr holl gyfarpar yn cael ei wirio'n rheolaidd o fewn amserlenni priodol er mwyn sicrhau ei fod o fewn ei ddyddiad defnyddio ac yn ddiogel i'w ddefnyddio Bod system ar waith i sicrhau bod yr holl gyfarpar angenrheidiol ar gael i'r 	2.9 Dyfeisiau meddygol, offer a systemau diagnostig	<p>Yr holl gyfarpar yn cael ei wirio'n wythnosol er mwyn sicrhau y caiff ei lanhau os nad yw'n cael ei ddefnyddio. Amserlen cynnal a chadw yn cael ei gwirio a'i chofnodi</p> <p>Yn dilyn yr ymweliad, nodwyd 3 unigolyn a fydd yn sicrhau bod lefelau stoc yn cael</p>	Prif Nyrsys y Ward / Metron Metron	Cwblhawyd Ionawr 2020

Yr hyn sydd angen ei wella	Safon	Cam gweithredu'r gwasanaeth	Swyddog cyfrifol	Amserlen
staff ar y wardiau er mwyn sicrhau y gellir darparu gofal diogel ac effeithiol.		eu cynnal. Mae pob un ohonynt wedi cael hyfforddiant archebu drwy Oracle		Cwblhawyd Ionawr 2020
Mae'n rhaid i'r bwrdd iechyd sicrhau bod gan bob aelod o'r staff ddealltwriaeth dda o'r llwybr sepsis pediatrig.	3.1 Gofal Diogel a Chlinigol Effeithiol	Trafodwyd hyn â meddyg ymgynghorol arweiniol a enwyd yn dilyn yr ymweliad. Posterï 6 arwydd sepsis wedi'u harchebu. Bydd rhaglen addysg nyrsio yn dechrau er mwyn cyflwyno llwybr sepsis. Mae'r staff yn defnyddio'r egwyddorion adnabod plant sâl a safonau'r Coleg Nyrsio Brenhinol ar gyfer arsylwadau clinigol.	Pennaeth Nyrsio/ Metron/ Addysgwr Clinigol a'r Arweinydd Clinigol ar gyfer Pediatreg	Medi 2020
Mae'n rhaid i'r bwrdd iechyd sicrhau bod trefniadau rheoli poen yn cael eu cofnodi'n briodol yng nghofnodion y cleifion.	3.5 Cadw cofnodion	Archwiliadau ansawdd i gynnwys archwiliad rheoli poen. Rheolwyr y Wardiau i'w gwirio a sicrhau eu bod wedi'u cwblhau. Archwiliad ar hap i'w gwblhau ym mis Ebrill 2020	Prif Nyrs y Ward / Metron	Diwedd mis Ebrill 2020
Ansawdd rheolaeth ac arweinyddiaeth				
Mae'n rhaid i'r bwrdd iechyd wneud y canlynol: <ul style="list-style-type: none"> Ystyried diwylliant a dysgu mewn perthynas â digwyddiadau, gan gynnwys sicrhau bod y gwersi a 	Llywodraethu, Arweinyddiaeth ac Atebolrwydd	Cyfarfodydd risg misol wedi'u symud i ardaloedd o'r wardiau er mwyn annog y staff i'w mynychu. Adborth wedi'i roi i gofnodwyr ar ôl cyflwyno adroddiad Datix. Digwyddiadau dysgu wedi'u	Pennaeth Nyrsio, Metron a Rheolwr Gwasanaethau,	Cwblhawyd Chwefror 2020

Yr hyn sydd angen ei wella	Safon	Cam gweithredu'r gwasanaeth	Swyddog cyfrifol	Amserlen
<p>ddysgwyd yn cael eu rhannu â'r staff mewn amgylchedd agored nad yw'n cosbi</p> <ul style="list-style-type: none"> Sicrhau bod prosesau cadarn ar waith ar gyfer archwilio gweithgareddau'r wardiau, a bod hyn yn cael ei oruchwylio'n ddigonol yn y bwrdd iechyd. 		<p>cynnal yn dilyn digwyddiadau difrifol. Hyfforddiant digwyddiadau a chwynion wedi'i ddarparu gan yr Uned yn ystod diwrnodau sgiliau yn 2019-20</p> <p>Archwiliadau sicrhau ansawdd ar waith a chaiff unrhyw wersi a ddysgwyd eu rhannu mewn cyfarfodydd Dysgu a Sicrwydd.</p>	<p>Gwasanaethau Plant</p> <p>Pennaeth Nyrsio/ Metron/ Prif Nyrsys y Ward</p>	<p>Ar waith</p>
<p>Mae'n rhaid i'r bwrdd iechyd sicrhau'r canlynol:</p> <ul style="list-style-type: none"> Bod y rotâu staffio'n cael eu hadolygu er mwyn sicrhau bod y lefelau staffio'n ddiogel ac yn effeithiol i ddiwallu anghenion y gwasanaeth Bod adolygiad yn cael ei gynnal o ddigonolrwydd y sianelau cyfathrebu rhwng yr uwch-reolwyr a'r staff er mwyn sicrhau cyfathrebu effeithiol 	<p>7.1 Y Gweithlu</p>	<p>Deddf Lefelau Staff Nyrsio yn cael ei hymestyn i Bediatreg ym mis Ebrill 2021. Trefniadau staffio ar y wardiau yn cael eu hadolygu yn unol â'r egwyddorion staffio interim ar gyfer cleifion mewnol pediatreg a luniwyd gan Grŵp Staffio Cymru Gyfan. Mae'r pennaeth nyrsio wedi ysgrifennu i uwchgyfeirio'r prinder</p> <p>Cyfarfodydd ward ar waith, adborth yn cael ei roi'n ddyddiol drwy e-bost 'Huddle'</p>	<p>Cyfarwyddwr Nyrsio'r Uned/Pennaeth Nyrsio</p> <p>Prif Nyrs y Ward/Metron</p>	<p>Ebrill 2021</p> <p>Ar waith</p>

Yr hyn sydd angen ei wella	Safon	Cam gweithredu'r gwasanaeth	Swyddog cyfrifol	Amserlen
<ul style="list-style-type: none"> Bod y staff yn cael cyfleoedd i gwblhau hyfforddiant gorfodol a mynychu hyfforddiant PILS ac EPALS Mae'n rhaid i'r bwrdd iechyd sicrhau bod pob aelod o staff yn cael arfarniadau blynyddol amserol Bod ystyriaeth yn cael ei rhoi i lesiant y staff a pha mor hawdd ydyw i gael gafael ar gymorth iechyd galwedigaethol pan fo angen. 		<p>Pob aelod o'r staff yn mynychu diwrnodau astudio Gorfodol / Sgiliau. Cydymffurfiaeth ag e-ddysgu - 86%. EPLS - anhawster i sicrhau lleoedd bob dwy flynedd. Fodd bynnag, rydym yn darparu hyfforddiant ar sefydlogi a rheoli plentyn sy'n ddifrifol wael. Mae hyfforddiant senarios tîm amlddisgyblaethol hefyd ar waith</p> <p>Ar waith ar gyfer pob aelod o'r staff. Mae angen mynd i'r afael â chydymffurfiaeth oherwydd llwyth gwaith a swyddi gwag dros gyfnod y gaeaf. Cynlluniau ar waith i wella. Caiff hyn ei drafod yn fisol yng nghyfarfodydd cadarnhau a herio'r uned.</p> <p>Sicrheir bod pob aelod o'r staff yn ymwybodol o'r gwasanaeth llesiant. Bydd yr uwch-dîm rheoli yn comisiynu'r tîm llesiant i gynnal gweithdai gyda'r staff ar y safle. Caiff unrhyw oedi wrth atgyfeirio i iechyd galwedigaethol ei uwchgyfeirio i Uned Cyflenwi Gwasanaethau Singleton</p>	<p>Prif Nyrsys/Metron</p> <p>Prif Nyrsys y Ward/Metron/Pennaeth Nyrsio</p> <p>Pennaeth Nyrsio/Rheolwr Clinigol Gwasanaethau Plant</p>	<p>Hydref 2020</p> <p>Ebrill 2020</p> <p>Mai 2020</p>

Rhaid i'r adran ganlynol gael ei chwblhau gan gynrychiolydd y gwasanaeth sy'n bennaf cyfrifol ac atebol am sicrhau y caiff y cynllun gwella ei roi ar waith.

Cynrychiolydd y gwasanaeth

Enw (priflythrennau): Eirlys Thomas

Teitl swydd: Pennaeth Nyrsio, Gwasanaethau Plant

Dyddiad: 12 Mawrth 2020